Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

ad:
**ell Bwyllgora 2 – edd**

ad:
**Llun, 22 Hydref**

r:

rhagor o
daeth, cysylltwch

**George**
Pwyllgor
89 8242
orMCD@cymru.gov.uk

**FIELD_TITLE**
FIELD_SUMMARY

Agenda

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 1. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
## 2.

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**CLA180 - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 2 Hydref 2012. Fe'i gosodwyd ar 8 Hydref 2012. Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(3)

**CLA182 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Sylfaenol) (Diwygiadau sy'n Ymwneud ag Unedau o Weithgaredd Deintyddol) (Cymru)**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Hydref 2012. Fe'u gosodwyd ar 11 Hydref 2012. Yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2012

**CLA183 - Gorchymyn Pysgod Môr (Ardaloedd Môr Penodedig) (Gwahardd Dull Pysgota) (Cymru) 2012**

Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 10 Hydref 2012. Fe'i gosodwyd ar 11 Hydref 2012. Yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2012

<u>Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol</u>

None

## 3. Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi gyda'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

<u>Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol</u>

**CLA181 - Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012**

(Tudalennau 1 - 12)
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Hydref 2012. Fe'u gosodwyd ar 8 Hydref 2012. Yn dod i rym ar 2 Tachwedd 2012

<u>Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol</u>

Dim

## 4. Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Tudalennau 13 - 21)

**Papurau:**
**CLA(4)-21-12(p1) -** Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus - Cymalau yn ymwneud â'r Cyfyngiadau sydd i'w Cymhwyso i Gynlluniau Newydd
**CLA(4)-21-12(p2) -** Adroddiad y cynghorwyr cyfreithiol

## 5. Eitem 5: Gohebiaeth y Pwyllgor

**Eitem 5.1: CLA169 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) (Diwygio) 2012**
(Tudalennau 22 - 25)
**Papurau**:
**CLA(4)-21-12(p5)** - Llythyr oddi wrth y Cadeirydd i'r Gweinidog, dyddiedig 26 Medi 2012
**CLA(4)-21-11(p6)** - Ymateb y Gweinidog, dyddiedig 3 Hydref 2012

**Eitem 5.2: CLA171 - Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012**
(Tudalennau 26 - 30)
**Papurau:**
**CLA(4)-21-12(p7) -** Llythyr oddi wrth y Cadeirydd i'r Gweinidog, dyddiedig 27 Medi 2012
**CLA(4)-21-11(p8) -** Ymateb y Gweinidog, dyddiedig 3 Hydref 2012
**CLA(4)-21-11(p9)** - CLA171 - Adroddiad

## 6. Papur i'w nodi

**Adroddiad monitro sybsidiaredd (Mai 2012 - Awst 2012)** (Tudalennau 31 - 38)

**Papurau:**
**CLA(4)-21-12(p10) -** Adroddiad monitro sybsidiaredd haf 2012 (Mai 2012 - Awst 2012)

**Isddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Fesurau'r Cynulliad**
(Tudalennau 39 - 120)

**Papurau:**
**CLA(4)-21-12(p11) -** Isddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Fesurau'r Cynulliad

## 7. Dyddiad y cyfarfod nesaf
5 Tachwedd 2012

## Papur i'w nodi
CLA(4)-20-12 - Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2012

## Trawsgrifiad
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**CLA181**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn, a wneir o dan adran 11(1) Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010:

- yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys mewn asesiad awdurdod lleol o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn ei ardal;
- yn nodi'r unigolion a'r grwpiau y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy;
- yn nodi bod gofyniad bod pob awdurdod lleol yn llunio cynllun gweithredu fel rhan o'r asesiad;
- yn darparu ynghylch amlder yr asesiadau, a'r dull y mae'n rhaid ei ddefnyddio i gyhoeddi canlyniadau'r asesiadau.

**Materion technegol: craffu**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rhinweddau: craffu**

**Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn: mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

- Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Trydydd Cynulliad yr adroddiad ar ei ymchwiliad i '*fannau diogel i chwarae a chymdeithasu*'. Yn argymhelliad cyntaf yr adroddiad, anogodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru:

  > *"...i gwblhau ei hadolygiad o'r safonau a'r canllawiau ar gyfer chwarae cyn gynted â phosibl... Dylai'r canllawiau gynnwys diffiniad clir o 'chwarae' sy'n cynnwys **chwarae wedi'i strwythuro a chwarae dirwystr**... [Ein pwyslais ni].*

- Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor, ac eglurodd:

*“Greater clarification will be provided on the meaning of ‘play’ and the term will be sufficiently broad to include both ‘structured’ and ‘free play’.”*

- Mae paragraff 8.2 yn y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau drafft, ac mae'n nodi ei bod yn bosibl bod cyfran sylweddol (cynifer â 56%) o'r rhai a ymatebodd yn dymuno i'r rheoliadau fod yn fwy eglur. Nododd hefyd: *“The respondents who wanted greater clarity were primarily concerned about the relation between freely chosen play and adult led recreational activities.”*

- Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan: *“The summary report responds to this concern in more detail”; “the Regulations and the Statutory Guidance have been amended accordingly* ”; ac *“A summary of the amendments…has been made available on the Welsh Government’s web site.*”

- Yn anffodus, fel ar 18 Hydref 2012, nid ydym wedi gallu cael hyd i’r adroddiad cryno ar wefan Llywodraeth Cymru. Felly, nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael yn llwyr â'r argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'r pryderon a fynegwyd gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft.

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Hydref 2012**

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2555 (Cy. 279)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n cael eu gwneud o dan adran 11(1) (dyletswyddau awdurdod lleol ynghylch cyfleoedd chwarae i blant) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys mewn asesiad awdurdod lleol o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn ei ardal (rheoliad 3). Mae'r Rheoliadau'n nodi'r unigolion a'r grwpiau y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy (rheoliad 4). Yn ogystal, mae gofyniad bod pob awdurdod lleol yn llunio cynllun gweithredu fel rhan o'r asesiad (rheoliad 5). Mae'r Rheoliadau yn darparu ynghylch amlder yr asesiadau (rheoliad 6), a'r dull y mae'n rhaid ei ddefnyddio i gyhoeddi canlyniadau'r asesiadau (rheoliadau 7 ac 8).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 2555 (Cy. 279)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012

*Gwnaed* *6 Hydref 2012*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *9 Hydref 2012*

*Yn dod i rym* *2 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 11(1) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a deuant i rym ar 2 Tachwedd 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "ardal awdurdod lleol" ("*local authority area*") yw'r ardal ddaearyddol honno y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdani;

ystyr "asesiad" ("*assessment*") yw'r asesiad sy'n cael ei wneud gan awdurdod lleol o dan adran 11(1) o'r Mesur;

mae "chwarae" ("*play*") wedi ei ddiffinio yn adran 11(6) o'r Mesur;

mae "digonol" ("*sufficient*") wedi ei ddiffinio yn adran 11(6) o'r Mesur;

(**1**) 2010 mccc 1.

ystyr "digwyddiad chwarae" ("*play event*") yw unrhyw ddigwyddiad a gynhelir yn gyhoeddus at ddiben hyrwyddo chwarae;

ystyr "man agored" ("*open space*") yw unrhyw dir sydd wedi ei osod allan fel gardd gyhoeddus, neu sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion adloniant cyhoeddus;

ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, dyma'r ystodau oedran—

(a) 3 oed ac yn is;

(b) 4 – 7 oed;

(c) 8 – 12 oed;

(d) 13 – 15 oed;

(e) 16 – 17 oed.

**Materion i'w cynnwys yn yr asesiad**

**3.** Rhaid i awdurdod lleol roi ystyriaeth i'r materion canlynol wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae o fewn ei ardal awdurdod lleol—

(a) o ran pob ystod oedran, nifer y plant sydd o fewn ei ardal;

(b) anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd o fewn ei ardal;

(c) y mannau lle y gall plant chwarae ynddynt, gan gynnwys—

(i) mannau agored, a

(ii) unrhyw fan arall;

(d) darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth, gan gynnwys—

(i) canolfannau hamdden,

(ii) meysydd chwarae antur,

(iii) cynlluniau chwarae yn ystod gwyliau,

(iv) clybiau a grwpiau ieuenctid,

(v) darpariaeth symudol, a

(vi) unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer chwarae dan oruchwyliaeth;

(e) p'un a oes tâl yn cael ei godi am ddarpariaeth chwarae ai peidio, a phan fo tâl yn cael ei godi, swm y tâl hwnnw;

(f) y mesurau a ddefnyddir i hyrwyddo mynediad at chwarae, gan gynnwys—

(i) cynlluniau gostegu traffig a chynlluniau strydoedd saff,

(ii) llwybrau i gerddwyr,

(iii) llwybrau beicio,

(iv) trafnidiaeth gyhoeddus,

(v) parcio,

(vi) oriau agor y ddarpariaeth chwarae,

(vii) hysbysebu'r ddarpariaeth chwarae,

(viii) unrhyw ddigwyddiadau chwarae;

(g) y gweithlu chwarae—

(i) gweithwyr chwarae,

(ii) gwirfoddolwyr chwarae,

(iii) cyfleoedd hyfforddi i'r gweithlu chwarae,

(iv) lefelau cymwysterau'r gweithlu chwarae;

(h) lefel yr ymgysylltu â'r gymuned a chyfranogiad y gymuned, gan gynnwys—

(i) grwpiau ieuenctid,

(ii) cynghorau ysgol,

(iii) cyrff llywodraethu ysgolion,

(iv) grwpiau cymunedol;

(i) i ba raddau y mae polisïau eraill awdurdod lleol yn dwyn i ystyriaeth yr angen i ehangu cyfleoedd chwarae i blant.

**Ymgynghori**

**4.** Wrth lunio'r asesiad, rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r canlynol—

(a) y plant;

(b) y rhieni;

(c) yr unigolion a'r sefydliadau â buddiant mewn chwarae,

sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol.

**Cynllun Gweithredu**

**5.**—(1) Rhaid i bob asesiad a lunnir gan awdurdod lleol gynnwys cynllun gweithredu.

(2) Pan fo asesiad yn nodi—

(a) bod y cyfleoedd chwarae i blant yn annigonol yn yr ardal awdurdod lleol, rhaid i'r cynllun gweithredu nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i wella'r cyfleoedd i blant chwarae o fewn yr ardal awdurdod lleol honno, neu

(b) bod y cyfleoedd chwarae i blant yn ddigonol yn yr ardal awdurdod lleol, rhaid i'r cynllun gweithredu nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i gynnal y cyfleoedd i blant chwarae o fewn yr ardal awdurdod lleol honno.

**Amseru'r Asesiad**

**6.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol gwblhau ei asesiad cyntaf cyn pen 4 mis ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(2) Yn dilyn asesiad cyntaf rhaid i awdurdod lleol gwblhau asesiad bob 3 blynedd.

(3) Mae'r 3 blynedd y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (2) yn cychwyn o'r dyddiad y mae'n rhaid i'r asesiad cyntaf gael ei gwblhau arno.

(4) Rhaid i awdurdod lleol anfon copi o'r asesiad at Weinidogion Cymru.

**Cyhoeddi**

**7.** Rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi ar ei wefan grynodeb o ganlyniadau'r asesiad.

**8.** Rhaid i awdurdod lleol adneuo crynodeb o ganlyniadau'r asesiad yn y llyfrgelloedd cyhoeddus, canolfannau hamdden, ysgolion a'r mannau eraill hynny sy'n briodol ym marn yr awdurdod lleol.

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2012

# Explanatory Memorandum to the Play Sufficiency Assessment (Wales) Regulations 2012

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Health, Social Services and Children and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Play Sufficiency Assessment (Wales) Regulations 2012. I am satisfied that the benefits outweigh any costs.

**Gwenda Thomas**
Deputy Minister for Children and Social Services
06 October 2012

## 1. Description

1.1. These Regulations place a duty on Local Authorities to assess for sufficient play opportunities in their area.

1.2. These Regulations have been developed under Section 11 of the Children and Families (Wales) Measure with exception of subsection (3) and (4).

## 2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

2.1. There are no matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

## 3. Legislative background

3.1. Section 11 of the Children and Families (Wales) Measure provides that the Welsh Ministers may place a duty on Local Authorities in Wales to assess for and secure sufficient play opportunities for children in their areas. Section 11 states:

- 11(1) that a Local Authority must assess the sufficiency of play opportunities in its area for children in accordance with regulations.
- 11 (2) what the regulations may include.

*Not yet in force*

- *11 (3) that a Local Authority must secure sufficient play opportunities in its area for children, so far as reasonably practicable, having regard to its assessment under subsection (1).*

*Not yet in force*

- *11 (4) that the Local Authority must publish information about play opportunities in the authority's area for children, and keep the information published up to date.*
- 11 (5) that in performing its duties under this section, a Local Authority must have regard (among other things) to the needs of children who are disabled persons (within the meaning of section 1 of the Disability Discrimination Act 1995 [c. 50]) and to the needs of children of different ages.
- 11 (6) that “play” includes any recreational activity and “sufficient”, in relation to play opportunities, means sufficient having regard to quantity and quality.

*3.2. Subsections 11 (3) and 11(4) have not yet been commenced.*

*3.3. These Regulations follow the negative resolution procedure.*

## 4. Purpose & intended effect of the legislation

4.1. The purpose of the Regulations and the statutory Guidance that will give detail to this duty is to firstly set out what the Welsh Government wants to achieve in creating a play friendly environment for children in Wales and secondly what Local Authorities need to do in complying with this duty. They set out the detail for conducting the Play Sufficiency Assessments and the matters that need to be taken into account.

4.2. These recognise that the factors that affect play cover a wide range of policy areas including planning; traffic; management of open space and community safety and therefore need to be considered in so far as they contribute to children's play opportunities. Play also contributes to a wide range of agendas that seek to benefit children including health and well-being; and education, particularly the Foundation Phase, so it is necessary to consider how play is effectively embedded in these policy/service delivery areas.

4.3. The overall purpose of the regulations is to develop an accurate picture of play opportunities for children throughout Wales; a well evidenced assessment of the sufficiency of play in each Local Authority; and the development of action plans with associated costs which each Local Authority will use to achieve the second part of the duty, to secure sufficient play opportunities for children in their areas once it is commenced.

4.4. The benefits for children from having access to sufficient play opportunities are enhanced health; physical, personal and social skills and creativity. Play can also help mitigate the negative effects of poverty on children's lives.

4.5. Increased play and recreational activities for children also benefit the family and wider community. It is intended that the duty will result in environments that are safe and attractive for all and communities that value all members and work collectively to meet their needs.

4.6. Wales is the first country in the world to establish such a duty within its legislative framework. We will continue to work with all stakeholders to make this legislation fit for the purpose of creating a play friendly Wales with all the benefits that this will offer to our children.

## 5. Consultation

5.1. The details of the consultation undertaken are included in the Regulatory Impact Assessment (RIA) below.

## 6. Regulatory Impact Assessment

### 6.1. Option 1 – Do Nothing

If we were to do nothing, we would not be supporting the Government's commitment to improve opportunities for all children and young people to play in safety and, in particular, to support improved access to play for children with disabilities.

**Option 1 – Cost**
There would be no new cost implications from this option.

**Option 1 – Benefits**
There would be no benefits from this option.

### 6.2. Option 2 – Make the Legislation

By making the regulations Local Authorities will have clear responsibilities and duties to ensure that they undertake a play sufficiency assessment.

**Option 2 – Cost**
£484,000 has been allocated from the Children, Young People and Families budget for the financial year 2012-13 to support Local Authorities in conducting the first Play Sufficiency Assessment. These will be completed by March 2013.

**Option 2 – Benefits**
The benefits will be two fold: well evidenced play sufficiency assessments and action plans with associated costs to enable Local Authorities to increase play opportunities for all children in the future.

## 7. Guidance

7.1. Statutory Guidance will be issued alongside the Regulations and will support Local Authorities in fulfilling their duties under this section of the Measure. There will also be a non-statutory toolkit and pro-forma for completion, which will be developed in conjunction with Play Wales. This has been designed to assist Local Authorities in completing the initial assessment and action plan.

## 8. Consultation

8.1. A formal 12 week consultation was launched on 2 April 2012 which engaged with Local Authority Officers and Members, together with third sector organisations and other interested stakeholders. The consultation asked for views on the draft Regulations and the draft Statutory Guidance.

8.2. The 12 week consultation closed on 25 June 2012. There were a total number of 81 respondents. Thirty two (44%) of the respondents indicated agreement that the regulations and statutory guidance clearly set out the matters to be considered. The respondents who wanted greater clarity were primarily concerned about the relation between freely chosen play and adult led recreational activities. The Play Sufficiency

Duty is underpinned by the Children and Families (Wales) Measure 2010. In Section 11(6) of the Measure Play is defined for as including “any recreational activity”. The summary report responds to this concern in more detail.

8.3. In response to the comments and suggestions put forward during the consultation period the Regulations and the Statutory Guidance have been amended accordingly. A summary of the amendments can be viewed in the Summary Report, which has been made available on the Welsh Governments web site.

**9. Competition Assessment**

9.1. There are no market implications associated with the making of these Regulations. It has no impact on business, charities or the voluntary sector.

**10. Summary**

10.1. The making of these Regulations is necessary to ensure that children have the opportunity to play, and support children’s right as set out in article 31 of the UNCRC. The commencement of this duty may also help mitigate the negative effects of poverty on children’s lives and help to build their resilience.

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**BIL PENSIYNAU'R GWASANAETH CYHOEDDUS – CYMALAU YN YMWNEUD Â'R CYFYNGIADAU SYDD I'W CYMHWYSO I GYNLLUNIAU NEWYDD**

**Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol**

1. "Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Medi 2012 sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau sydd i'w cymhwyso i'r cynlluniau pensiwn newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

**Cefndir**

2. Cyflwynwyd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, o dan Reol Sefydlog 29.6 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol). Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cyflwynwyd Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (y Bil) yn Senedd y DU ar 13 Medi 2012. Gellir gweld y Bil yn http://services.parliament.uk/bills/2012-13/publicservicepensions/documents.html

**Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi**

4. Mae'r Bil yn pennu'r trefniadau newydd ar gyfer creu cynlluniau i dalu pensiynau a buddion eraill. Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion i greu cynlluniau o'r fath yn unol â fframwaith cyffredin o ofynion. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Drysorlys Ei Mawrhydi i bennu manylion technegol rhai gofynion penodol ac yn rhoi pwerau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau i gynnal system oruchwylio annibynnol ar y modd y gweithredir y cynlluniau hyn.

5. Y bwriad yw y bydd y pwerau yn y Bil yn disodli pwerau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys y rhai sydd yn y ddeddfwriaeth a ganlyn, ar gyfer creu cynlluniau i dalu pensiynau a buddion eraill:

- Deddf Blwydd-daliadau 1972, ar gyfer gweision sifil, pobl a gyflogir gan lywodraeth leol, athrawon a phobl sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd;

- Deddf Tân ac Achub 2004;
- Deddf y Lluoedd Arfog (Pensiynau ac Iawndal) 2004;
- Deddf Pensiynau'r Heddlu 1976;
- Deddf Pensiynau ac Ymddeoliadau Barnwrol 1993; a
- Gorchymyn Blwydd-daliadau (Gogledd Iwerddon) 1972.

6. Mae'r Bil yn diogelu'r buddion a enillir eisoes gan aelodau cynlluniau pensiwn cyfredol y gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'n galluogi categorïau penodol o bobl sydd agosaf at ymddeol i barhau'n aelodau o'r cynlluniau hynny.

7. Nodau datganedig y Bil yw:

- Sicrhau lefel dda o incwm ymddeol i weithwyr y gwasanaeth cyhoeddus, a hynny â graddau cymharol dda o sicrwydd;
- Bod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy – a'r risg o ran cost yn cael ei rheoli a'i rhannu'n effeithiol;
- Rhoi cydbwysedd teg o o ran cost a budd i weithwyr y gwasanaeth cyhoeddus a threthdalwyr eraill;
- Diogelu'r rhai hynny sydd agosaf at ymddeol;
- Bod â fframwaith cyfreithiol a strwythur llywodraethu eglur – a chael ei ddeall yn gyffredinol gan weithwyr;
- Gwrthsefyll prawf amser – na fydd rhagor o ddiwygio am 25 mlynedd o leiaf.

8. Yn fwy penodol, bydd y Bil:

- Yn caniatáu ar gyfer creu cynlluniau pensiwn Cyfartaledd Gyrfa newydd;
- Yn sicrhau, yn achos cynlluniau newydd, fod yr Oed Pensiwn Arferol wedi'i gysylltu ag Oed Pensiwn y Wladwriaeth, a hynny i bawb ac eithrio'r lluoedd arfog, yr heddlu a'r gwasanaeth tân;
- Yn darparu ar gyfer rhoi cap ar rwymedigaeth y trethdalwr;
- Yn cynnwys diogelwch trosiannol i bobl sydd lai na deng mlynedd o gyrraedd eu Hoed Pensiwn Arferol ar 1 Ebrill 2012;
- Yn cyflwyno rhwystr uchel iawn ar gyfer newidiadau i elfennau penodol o'r dyluniadau pensiwn hyn;

- Yn sicrhau bod gan bob cynllun pensiwn newydd Fwrdd a rheoleiddiwr, fel bod modd i'w haelodau fod yn hyderus eu bod yn cael eu rhedeg yn effeithiol.

**Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

9. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd mewn perthynas â'r cynlluniau pensiwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Gweinidogion Cymru ac aelodau awdurdodau lleol. Mae Cymal 27 o'r Bil yn gwneud dau beth –

(a) mae'n gosod cyfyngiadau ar ddyluniad cynlluniau pensiwn newydd a allai gael eu creu o dan y pŵer yng nghymal 28(4) ar gyfer y cyrff a'r swyddi hynny y mae eu cynlluniau pensiwn wedi'u cau gan gymal 28(2) ac na all eu haelodau ymuno ag un o'r cynlluniau a sefydlwyd o dan gymal 1; a

(b) mae hefyd yn llywodraethu dyluniad cynlluniau pensiwn a lunnir yn y dyfodol neu a sefydlir o dan ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar gyfer cyrff cyhoeddus (oni bai fod deddfwriaeth y dyfodol yn gwneud darpariaeth benodol a gwahanol).

10. Y ddarpariaeth olaf uchod sy'n effeithio ar feysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, am y rheswm hwn. Pe dymunai'r Cynulliad greu cynlluniau pensiwn newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad neu gynghorwyr llywodraeth leol, ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu ac i'r cymal hwn ddod i rym, byddai'r cynlluniau newydd hynny yn cael eu dal gan y darpariaethau yng nghymal 27 sy'n ymwneud â chreu pensiynau newydd i gyrff cyhoeddus.

11. Mae'r Bil yn ymdrin â Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Gofynnir i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon roi eu cydsyniad mewn perthynas â darpariaethau o fewn y Bil i wneud cynlluniau newydd ar gyfer pensiynau a buddion eraill lle y bo cymhwysedd datganoledig.

12. Er bod y Bil yn effeithio ar gymhwysedd y Cynulliad i greu cynlluniau pensiwn newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad neu gynghorwyr llywodraeth leol, nid yw'n effeithio ar y defnydd a wneir o Gynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr nac yn y dyfodol nac ar y trefniadau cyfredol ar gyfer cynghorwyr lleol Cymru y darperir ar eu cyfer gan y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yr ymdrinnir â hwy eisoes yn y Bil.

**Manteision defnyddio'r Bil hwn**

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn deg ac yn briodol i'r ddeddfwriaeth ar ddiwygio pensiynau fod yn gymwys i holl gyrff cyhoeddus Cymru. Bydd yn sicrhau dull cyson o ymdrin â threfniadau pensiynau ar draws Cymru, a hwnnw'n gyson â'r newidiadau ehangach ar draws y sector cyhoeddus yn y DU.

14. Ymdrin â'r ddeddfwriaeth hon yn un o Filiau'r DU yw'r cyfrwng cyfreithiol mwyaf priodol o sicrhau dull cyson ar gyfer (a) adolygu cynlluniau penodol sy'n bodoli a (b) creu cynlluniau pensiwn newydd yn unol â fframwaith gofynion cyffredin.

**Goblygiadau Ariannol**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r Bil hwn. O dan y Bil, bydd Cymru yn cyfrannu at gynlluniau pensiwn newydd a fydd yn sicrhau 10% o arbedion rhagamcanol yn y tymor hir; gan greu arbedion o tua £65bn i'r DU gyfan erbyn 2061/62. Yn ogystal, bydd cyfanswm y pecyn diwygio pensiynau ar gyfer y DU gyfan (sy'n cynnwys newid o'r mynegai RPI i'r mynegai CPI a mwy o gyfraniadau gan gyflogeion) yn sicrhau mwy na 430bn o arbedion, yn nhermau'r GDP cyfredol, dros y 50 mlynedd nesaf.

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**
**Medi 2012**

Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau'r Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partïon.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide information and advice to Assembly Members and their staff in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no responsibility is accepted for any reliance placed on them by third parties

## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

## Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL – BIL PENSIYNAU'R GWASANAETH CYHOEDDUS

Cefndir

1. Ar 2 Hydref 2012, rhoddodd y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ hysbysiad ynghylch cynnig fel a ganlyn –
"Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y'i cyflwynwyd yn Nhy'r Cyffredin ar 13 Medi 2012, sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau sydd i'w cymhwyso i'r cynlluniau pensiwn newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

2. Trafododd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm ar 9 Hydref 2012 ac, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4, cytunodd y Pwyllgor i'w gyfeirio i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm i'r Cynulliad erbyn 15 Tachwedd 2012, er mwyn i'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Tachwedd 2012. Diben y nodyn hwn yw hwyluso'r drafodaeth honno.

Y Bil

3. Cyflwynwyd Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Medi 2012 gan Ganghellor y Trysorlys. Bwriedir cynnal dadl Ail Ddarlleniad y Bil ar 22 Hydref. Ceir gwybodaeth gefndirol fanwl am y Bil ym mharagraffau 3 i 11 y Nodiadau Esboniadol i'r Bil: http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/2012-2013/0070/en/2013070en.htm

4. Bydd y Bil yn newid y gyfraith ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig, a bydd gofyn cael cydsyniad deddfwriaethol gan bob un o'r deddfwrfeydd

datganoledig.  Caiff hyn ei esbonio yn y Nodiadau Esboniadol a gafodd eu cyflwyno gyda'r Bil yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'n nodi:

> ***TERRITORIAL EXTENT***
>
> *12. This Bill extends to England and Wales, Scotland and Northern Ireland.*
>
> *13. The Northern Ireland Assembly's consent will be sought in relation to the provisions of this Bill to make schemes for pensions and other benefits that are within the competence of that Assembly.*
>
> *14. This Bill contains provisions that trigger the Sewel Convention in Scotland. The provisions relate to the pensions of certain members of the Scottish judiciary and a power to require the closure and reform of pension schemes in public bodies for which the Scottish Parliament has competence. The Sewel Convention provides that Westminster will not normally legislate with regard to devolved matters in Scotland without the consent of the Scottish Parliament. We have sought "in principle" agreement from Scottish Ministers to seek a Legislative Consent Motion for these provisions. If there are amendments relating to such matters which trigger the Convention, the consent of the Scottish Parliament will also be sought for them.*
>
> *15. The consent of the National Assembly for Wales will be sought in relation to provisions in this Bill which apply to new pension schemes for public bodies and" statutory office holders; the National Assembly for Wales has competence in relation to pension schemes for Assembly Members, Welsh Ministers and members of local authorities."*

Paratowyd y Nodiadau Esboniadol hyn gan y Trysorlys i gynorthwyo â'r gwaith o drafod y Bil.

5. Diben y Bil yn gyffredinol yw pennu'r trefniadau newydd ar gyfer creu cynlluniau i dalu pensiynau a buddion eraill. Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion greu cynlluniau o'r fath yn unol â fframwaith cyffredin o ofynion.  Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i'r Trysorlys bennu manylion technegol rhai gofynion penodol ac yn rhoi pwerau i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gynnal system oruchwylio annibynnol ar y modd y gweithredir y cynlluniau hyn.

6. Aiff y Nodiadau Esboniadol ymlaen i esbonio:

> *"Y bwriad yw y bydd y pwerau yn y Bil yn disodli pwerau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys y rhai sydd yn y ddeddfwriaeth a ganlyn, ar gyfer creu cynlluniau i dalu pensiynau a buddion eraill:*
> *· Deddf Blwydd-daliadau 1972, ar gyfer gweision sifil, pobl a gyflogir gan lywodraeth leol, athrawon a phobl sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd;*
> *· Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;*

- *Deddf y Lluoedd Arfog (Pensiynau ac Iawndal) 2004;*
- *Deddf Pensiynau'r Heddlu 1976;*
- *Deddf Pensiynau ac Ymddeoliadau Barnwrol 1993; a*
- *Gorchymyn Blwydd-daliadau (Gogledd Iwerddon) 1972.*

*Mae'r Bil yn diogelu'r buddion a enillir eisoes gan aelodau cynlluniau pensiwn cyfredol y gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'n galluogi categorïau penodol o bobl sydd agosaf at ymddeol i barhau'n aelodau o'r cynlluniau hynny."*

Cymhwysedd Deddfwriaethol

7. Mae'r darpariaethau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cyfeirio atynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan Bwnc 4 (Datblygu economaidd) a Phwnc 13 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

8. Cafodd y geiriad o dan bennawd 4 (Datblygu economaidd) ei ddiwygio gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007 (OS 2007/2143) i gynnwys eithriad penodol mewn perthynas â chynlluniau pensiwn personol a galwedigaethol. Cafodd hyn, yn ei dro, ei ddiwygio gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Diwygio Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) 2010. O ganlyniad, mae'r eithriad i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â phensiynau yn cynnwys 'eithriad i eithriad' ar gyfer materion y cyfeiriwyd atynt yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac mae'n darllen fel a ganlyn:

> *"Occupational and personal pension schemes (including schemes which make provision for compensation for loss of office or employment, compensation for loss or diminution of emoluments, or benefits in respect of death or incapacity resulting from injury or disease), apart from schemes for or in respect of Assembly members, the First Minister, Welsh Ministers appointed under section 48, the Counsel General or Deputy Welsh Ministers and schemes for or in respect of members of local authorities."*

9. Mae pennawd 13 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn cynnwys y cyfeiriad a ganlyn mewn perthynas â phensiynau: *Salaries, allowances, pensions and gratuities for and in respect of Assembly members, the First Minister, Welsh Ministers appointed under section 48, the Counsel General and Deputy Welsh Ministers.* Pan gafodd yr eithriad ar gyfer pensiynau ei gynnwys yng ngorchymyn 2007, roedd yn angenrheidiol cynnwys eithriad i'r eithriad fel nad oedd yn gwrth-ddweud y cymhwysedd a roddwyd o dan bennawd 13. Cafodd yr eithriad i eithriad pellach ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol ei wneud gan orchymyn 2010.

Y Memorandwm Cydsynio

10. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi mai cymal 27 yw'r cymal sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae cymal 27 yn nodi'r gofynion yn y Bil a fydd yn berthnasol i gynlluniau pensiwn cyrff cyhoeddus newydd, a fyddai'n cynnwys y cynlluniau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru ac ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol, neu mewn perthynas â hwy.

11. Mae mater arall mewn perthynas â chymhwysedd. Mae cymal 16 yn ei gwneud yn ofynnol nad oes unrhyw fuddion i gael eu darparu o dan gynllun sy'n bodoli eisioes a restrir yn Atodlen 5. Mae hyn yn cynnwys: "A scheme constituted by paragraph 6(3) of Schedule 11 to the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (nawm 1)". Mae paragraff 6(3) yn darllen fel a ganlyn:

> *"(3) The Welsh Ministers may pay—.*
> *(a) pensions to, or in respect of, persons who have been members of the Tribunal, and*
> *(b) amounts for or towards provision of pensions to, or in respect of, persons who have been members of the Tribunal."*

12. Mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn perthynas â'r Gymraeg yn llawer ehangach o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 nag yr oedd o dan Atodlen 5. Os oedd y ddarpariaeth hon o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn 2011, mae'n parhau i fod yn awr. Nid yw'n glir, felly, pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at hyn yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

13. Mae cyfeiriadau penodol eraill at Gymru yn y Bil. Mae cymal 1 yn eithrio rheoliadau cynlluniau a wnaed gan Weinidogion Cymru ar gyfer gweithwyr tân ac achub o'r rhai y mae'n ofynnol iddynt gael cysyniad y Trysorlys. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud cynlluniau mewn perthynas â'r gwasanaethau tân ac achub, ond nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol unrhyw bŵer i wneud deddfwriaeth sylfaenol ar y pwnc gan fod cynlluniau pensiwn personol a galwedigaethol wedi cael eu heithrio o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Mae cymal 20(5) yn cynnwys gofyniad i ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol os cynigir newidiadau penodol i gynlluniau o'r fath.

14. Ni fydd y Bil hwn yn gwneud unrhyw newidiadau i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Gan hynny, bydd y cymhwysedd i wneud darpariaethau mewn Deddfau Cynulliad, nad ydynt yn cyd-fynd â gofynion y Bil presennol, yn parhau gyda'r Cynulliad.

**Casgliad**

15. **Bydd y Bil yn gwneud newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth ar gyfer cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus. Mae'n cynnwys darpariaethau penodol sy'n ymwneud ag oed pensiwn ar gyfer Aelodau Seneddol ac Aelodau o Senedd Ewrop yn ogystal â nifer o weithwyr yn y sector cyhoeddus. Y mater i Aelodau'r Cynulliad ei ystyried yw a ydynt yn fodlon cael eu cynnwys (ynghyd â'r Cwnsler Cyffredinol ac aelodau o awdurdodau lleol Cymru) yn y ddeddfwriaeth, tra bônt yn cadw'r cymhwysedd i ddeddfu'n wahanol yn y dyfodol yn yr achosion prin hynny, os ydynt yn dewis gwneud hynny.**

Y Gwasanaethau Cyfreithiol

Hydref 2012

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lesley Griffiths AM
Minister for Health and Social Services
Welsh Government
5th Floor, Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

26 September 2012

Dear Lesley

**CLA169 - The National Health Service (Dental Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2012**

The Constitutional and Legislative Affairs Committee considered the above Statutory Instrument at its meeting on 24 September 2012.

The Committee was content that there was no need for the Assembly to pay special attention to the Regulations on any of the grounds set out in Standing Order 21.2.

The Regulations increase patient charges for certain dental services. Although the increases are relatively small, and are the first since 2006, the Committee would have expected the reasons for the increases and the basis for deciding their scale to have been fully and accurately explained in the Explanatory Memorandum. It is important that Explanatory Memorandums for all Statutory Instrument are as complete and accurate as possible, but this is particularly important when instruments impact directly on the public as in this case.

However, the basis for the calculation of these increases was not completely clear. In particular, there was a lack of clarity about the extent to which increases were decided by a formula or by Ministerial discretion. From this perspective, we believe there are good grounds to question whether the statement in the first part of section 6 that *"the Regulations simply increase a statutory fee by a predetermined formula"* is wholly accurate. We understand that there is currently no such formula.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost / Email: olga.lewis@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

The Committee considered whether to issue a “merits” report under Standing Order 21.3 in relation to the accuracy of the Explanatory Memorandum. The Committee does not believe that there was any intention to mislead in this case and agreed instead that I should write to you setting out our concerns and inviting you to respond to them.

I look forward to your response.

Yours sincerely

**David Melding AM**
**Chair**

Lesley Griffiths AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/LG/3135/12

David Melding AM
Committee Chair
The Constitutional and Legislative
Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

3 October 2012

Dear David,

**CLA169 – The National Health Service (Dental Charges) (Wales) (Amendment) Regulations 2012**

Thank you for your letter dated 26 September about the Explanatory Memorandum with regard to the above Statutory Instrument. I am sorry the Explanatory Memorandum was not as clear as it might have been.

Dental patient charges represent an important contribution to the overall cost of dental services. The amount raised will be dependent upon the level and type of primary care dental services provided by LHBs, the proportion for fee paying patients who access NHS dental services and the complexity of the treatment they receive.

There is a Programme for Government commitment to ensure that dental charges remain affordable and in doing so help to tackle oral health inequalities.

Patient charges are kept under annual review with consideration given to the provision of services, affordability and a number of factors including the Consumer Price Index, the Rate of Inflation and the total level of charge income likely to be raised. Account is also taken of the impact on charge payers, and also the views of Local Health Boards and the British Dental Association.

The decision to increase the Band 1 dental charge from £12.00 to £12.40 and the Band 2 charge from £39.00 to £40.20 from 1 September was made after considering and balancing the above factors. It is not considered practicable to undergo this process each year by way of public consultation.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

While I am pleased the Committee recognises there is no intention to mislead the National Assembly for Wales in this case, I accept the detail of the actual increase, including the means by which they were calculated should have featured more clearly in the EM. I would like to thank the Committee for bringing this matter to my attention.

Regards

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

John Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

27 Medi 2012

Annwyl Weinidog

**CLA171 - Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) Diwygio 2012**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 24 Medi 2012 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Medi, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb.

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost / Email: olga.lewis@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**David Melding AC**
Cadeirydd

**John Griffiths AC /AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy**
**Minister for Environment and Sustainable Development**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF-JG-3121-12
David Melding AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Hydref 2012

Annwyl David,

**CLA171 - Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi yn cynnwys adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau a nodir uchod ac yn cadarnhau ei fod wedi cael ei roi gerbron y Pwyllgor ar yr un diwrnod. Gofynnoch i mi ystyried yr adroddiad.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn fodlon gyda'r atebion rwyf eisoes wedi eu darparu, sydd wedi cael eu cynnwys yn yr Adroddiad, ac nid oes gennyf ragor o sylwadau.

Yn gywir,

John

**John Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

John Griffiths AC /AM
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF-JG-3121-12
David Melding AM
Chair
Constitutional and Legislative
Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

3 October 2012

Dear David,

**CLA171 - The Waste (England and Wales) (Amendment) Regulations 2012**

Thank you for your letter of 27 September enclosing the Committee's report on the above-mentioned Regulations and confirming that it has been laid on the same day. You asked me to consider the report.

I confirm that I am content with the answers I previously provided, which are included in the Report, and have no further comments.

Best wishes,

John

**John Griffiths AC / AM**
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy
Minister for Environment and Sustainable Development

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.John.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

CLA(4)-19-12

**CLA171**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) Diwygio 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r rheoliadau cyfansawdd hyn yn diwygio Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) er mwyn disodli rheoliadau 13 a 14(2), a hynny er mwyn sicrhau bod darpariaethau Cyfarwyddyd 2008/98/EC (y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff ddiwygiedig), sy'n ymwneud â chasglu gwastraff ar wahân, yn cael eu trosi'n gywir.

**Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 (ix) mewn perthynas â'r offeryn hwn: nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn: mae'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

1. Troswyd darpariaethau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig sy'n ymwneud â chasglu gwastraff papur, metal, plastig a gwydr ar wahân gan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011.

Roedd Rheoliad 13 (2) o'r Rheoliadau hynny'n darparu bod casgliadau cymysg (sef casglu'r eitemau dan sylw gyda'i gilydd ond eu casglu ar wahân i eitemau gwastraff o ffynonellau gwastraff y bwriedir eu hailgylchu) yn un math o gasglu ar wahân.

Cafodd achos adolygiad barnwrol ei ddwyn er mwyn herio'r trosiad hwn, yn benodol mewn perthynas â'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â gwastraff cymysg. Derbyniodd Gweinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig nad oedd rheoliad 13 gwreiddiol yn gweithredu gofynion y gyfarwyddeb fframwaith gwastraff ddiwygiedig mewn perthynas â chasglu ar wahân mewn modd priodol, a bod angen diwygio Rheoliadau 2011 yn sgîl hynny.

Ym mis Rhagfyr 2011, gohiriwyd yr achos tan 13 Mehefin 2012, er mwyn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ymgynghori ar gynigion i ddiwygio Rheoliadau 2011.

Mae'r Memorandwm esboniadol yn datgan bod yr offeryn hwn wedi'i osod cyn y toriad, yn unol â chytundeb a wnaed gyda'r hawlwyr a'r partïon eraill sydd â diddordeb i ymestyn cyfnod gohirio'r adolygiad barnwrol o 13 Mehefin i 25 Mehefin, a hynny er mwyn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i osod rheoliadau diwygio cyn y dyddiad hwnnw.

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw wybodaeth bellach yn nodi a yw'r hawlwyr a'r partïon eraill sydd â diddordeb yn yr achos hwn o ymgyfreitha wedi'u bodloni bod y Rheoliadau diwygiedig yn trosi'r gyfarwyddeb fframwaith gwastraff ddiwygiedig yn gywir.

2. Mae Rheoliad 2 (5) yn darparu ar gyfer mewnosod rheoliad 49 newydd yn Rheoliadau 2011. Byddai'r rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol adolygu gweithrediad ac effaith y Rheoliadau hynny mewn perthynas â Lloegr o fewn 5 mlynedd ar ôl 1 Hydref 2012, ac o fewn pob cyfnod o 5 mlynedd ar ôl hynny. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi pam nad ystyriwyd hi'n briodol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**24 Medi 2012**

**Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:**

**Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2012**

1. O dan Reol Sefydlog 21.2 (ix) – Nad yw'r rheoliadau wedi’u gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.
Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn yn gymwys i Gymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU. Ystyrir felly nad yw'n rhesymol ymarferol i'r Offeryn hwn gael ei wneud yn ddwyieithog.

2. O dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) – Ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw wybodaeth bellach yn nodi a yw'r hawlwyr a'r partïon eraill sydd â diddordeb yn yr achos hwn o ymgyfreitha wedi’u bodloni bod y Rheoliadau diwygiedig yn trosi'r gyfarwyddeb fframwaith gwastraff ddiwygiedig yn gywir.
Rhoddwyd drafft o'r Rheoliadau i'r Hawlwyr a'r Partïon a chanddynt Fuddiant ar 4 Gorffennaf 2012. Nododd yr Hawlwyr mewn llythyr ar 13 Gorffennaf 2012 nad oeddent yn fodlon ar y Rheoliadau diwygio, ond heb roi rhesymau o sylwedd i ategu eu barn. Rhoddwyd rhesymau o sylwedd mewn llythyr ar 16 Awst, ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gosod.

Felly, ar y gorau, dim ond nodi'r ffaith nad oedd yr Hawlwyr yn fodlon y byddai wedi bod yn bosibl ei wneud yn y Memorandwm Esboniadol. Sut bynnag, ni fyddai wedi bod yn briodol gwneud deddfwriaeth yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan yr Hawlwyr neu'r Partïon a chanddynt Fuddiant. Diben y ddeddfwriaeth oedd cywiro diffyg a gydnabuwyd gennym yn rheoliad 13 yn y Rheoliadau gwreiddiol, nad oedd yn gweithredu gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ddiwygiedig yn briodol mewn perthynas â chasglu ar wahân. Roedd y ffaith nad oedd yr Hawlwyr yn fodlon ar y diwygiadau yn berthnasol i'r adolygiad barnwrol a oedd yn mynd rhagddo, ond nid i'r broses o wneud y ddeddfwriaeth hon.

3. O dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) – Ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad. Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn nodi pam nad ystyriwyd hi’n briodol i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad.

Polisi cyfredol Llywodraeth y DU yw cynnwys cymal ym mhob rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i adolygiad gael ei gynnal o fewn cyfnod amser penodedig. Nid oes gan Lywodraeth Cymru bolisi tebyg yng Nghymru. Gall Gweinidogion Cymru adolygu'r rheoliadau unrhyw bryd. O ganlyniad, dim ond i Loegr yr oedd yn berthnasol cynnwys y ddarpariaeth adolygu yn yr offeryn.

Eitem 6.1

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Constitutional and Legislative Affairs Committee

## Summer 2012 subsidiarity monitoring report (May 2012 – August 2012)

| Date of paper: | September 2012 |
| --- | --- |

This briefing has been produced by the Research Service for use by the Constitutional and Legislative Affairs Committee.

For further information, contact Owain Roberts in the Research Service
Telephone ext. 8584
Email: (owain.roberts@wales.gov.uk)

Research Service

## Contents

**1. Introduction ... 3**
**2. The monitoring process ... 3**
**3. Overview of draft EU legislative proposals received (May 2012 – August 2012) . 5**
3.1. EU legislative proposals that did not raise any subsidiarity concerns ... 5

## 1. Introduction

Under Standing Order 21, a "responsible committee" in the Assembly (currently the Constitutional and Legislative Affairs Committee) is empowered to consider draft EU legislation that relates to matters within the legislative competence of the Assembly or to the functions of the Welsh Ministers and of the Counsel General, in order to identify whether it complies with the principle of subsidiarity.

The principle of subsidiarity is enshrined in Article 5 of the Treaty on European Union:

> 1. The limits of Union competences are governed by the principle of conferral. The use of Union competences is governed by the principles of subsidiarity and proportionality.
>
> 2. Under the principle of conferral, the Union shall act only within the limits of the competences conferred upon it by the Member States in the Treaties to attain the objectives set out therein. Competences not conferred upon the Union in the Treaties remain with the Member States.
>
> 3. Under the principle of subsidiarity, in areas which do not fall within its exclusive competence, the Union shall act only if and in so far as the objectives of the proposed action cannot be sufficiently achieved by the Member States, either at central level or at regional and local level, but can rather, by reason of the scale or effects of the proposed action, be better achieved at Union level.
>
> The institutions of the Union shall apply the principle of subsidiarity as laid down in the Protocol on the application of the principles of subsidiarity and proportionality. National Parliaments ensure compliance with the principle of subsidiarity in accordance with the procedure set out in that Protocol.
>
> 4. Under the principle of proportionality, the content and form of Union action shall not exceed what is necessary to achieve the objectives of the Treaties.
>
> The institutions of the Union shall apply the principle of proportionality as laid down in the Protocol on the application of the principles of subsidiarity and proportionality.[1]

In addition, the application of the principle is governed by the Protocol on the Application of the Principles of Subsidiarity and Proportionality. The relevant part in relation to the work of the Assembly is included in the first paragraph of Article 6:

> Any national Parliament or any chamber of a national Parliament may, within eight weeks from the date of transmission of a draft legislative act, in the official languages of the Union, send to the Presidents of the European Parliament, the Council and the Commission a reasoned opinion stating why it considers that the draft in question does not comply with the principle of subsidiarity. **It will be for each national Parliament or each chamber of a national Parliament to consult, where appropriate, regional parliaments with legislative powers.** *[RS emphasis]*[2]

## 2. The monitoring process

[1] Official Journal of the European Union, ***Consolidated version of the Treaty on European Union***, C83/204, 30 March 2010

[2] Official Journal of the European Union, ***Protocol on the Application of the Principles of Subsidiarity and Proportionality***, C310/207, 16 December 2004

In order to ensure that the Constitutional and Legislative Affairs Committee fulfils its subsidiarity monitoring function effectively as set out in Standing Orders, Assembly officials monitor all draft EU legislative proposals that apply to Wales on a systematic basis to check whether they raise any subsidiarity concerns. The way in which Assembly officials monitor these proposals is outlined below for information:

- The Assembly in the first instance is notified of all proposals published by the European Commission for consideration through a list (known as the "batch list") which is sent by the Foreign and Commonwealth Office on behalf of the UK Government to the Research Service for information.
- The relevant UK Government department will then prepare an Explanatory Memorandum (EM) based on the proposals included on the batch list usually within 4 to 6 weeks of the initial notification by the Foreign and Commonwealth Office. Each EM includes an assessment of the policy impact of the proposals (including whether the UK Government department believes the proposal raises any subsidiarity concerns). Copies of each EM are also sent to the Assembly via the Research Service.
- The Research Service filters the EMs received to check whether the proposal they relate to are "legislative" or "non-legislative"[3] and whether they encompass issues which may be of interest to the Assembly (i.e. relating to devolved matters).
- Those EMs that relate to proposals that are both "legislative" and deal with issues of interest to the Assembly are then checked further by officials from the Assembly's Legal Services, Brussels Office and the Research Service to see whether they raise any potential subsidiarity concerns.
- If a proposal raises subsidiarity concerns, Assembly officials will alert the Constitutional and Legislative Affairs Committee immediately whereupon Members will be asked to consider whether the Committee should ask either or both Houses at Westminster to issue a "reasoned opinion" on the proposal or not.
- Those proposals which are "legislative" and relate to devolved matters but raise no subsidiarity concerns are then collated in a monitoring report produced by the Research Service which is considered as a paper to note by the Constitutional and Legislative Affairs Committee during each term in an Assembly year (Autumn [September-December], Spring [January-April] and Summer [May – August]).

This report therefore includes a general overview of those draft EU legislative proposals received by the Assembly's Research Service between May and August 2012, and provides further information about those proposals that were identified by Assembly officials as being both "legislative" in nature and relating to devolved matters.

Please note however that this report only monitors "legislative" proposals**, it does not** contain details of any "non-legislative proposals" that may be relevant to the work of the Assembly. These are monitored on a separate basis by the Research Service.

[3] Subsidiarity concerns can only be raised in relation to draft "legislative" proposals.

## 3. Overview of draft EU legislative proposals received (May 2012 – August 2012)

A total of **263** UK Government EMs relating to EU proposals were received by the Assembly's Research Service between 1 May 2012 and 31 August 2012. Of these, **10** EMs were identified by Assembly officials as being both "legislative" in nature and of interest to the Assembly. Following further analysis, officials in the Assembly's Legal Service, Brussels Office and Research Service, found that none of these proposals raised subsidiarity concerns. Additional details about these relevant proposals are included below.

### *3.1. EU legislative proposals that did not raise any subsidiarity concerns*

| **Date EM emailed** | **Title and description** |
|---|---|
| 2 May 2012 | *An amended proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council amending Regulation (EC) No 1760/2000 as regards **electronic identification of bovine animals and deleting the provisions on voluntary beef labelling** (COM(2012)162).*<br><br>This proposal is a modified version of Regulation (EC) No 1760/2000 as regards electronic identification of bovine animals and deleting the provisions of voluntary beef labelling, which was in itself a regulation which amended a previous proposal. This modified proposal amends only the Article in the initial regulations dealing with the administration of sanctions where there is non-compliance. It is therefore an enabling proposal that will eventually allow for the electronic identification of cattle; abolition of cattle passports for domestic trade; electronic herd registers; and the removal of provisions relating to the voluntary labelling of beef. |
| 22 June 2012 | *Proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council amending Council Regulation (EC) No 2371/2002 on the **conservation and sustainable exploitation of fisheries resources under the Common Fisheries Policy*** (COM (2012) 277)<br><br>This proposal proposes an extension of the access restriction regime provided under Article 17 (2) of the Common Fisheries Policy (Regulation 2371/2002) which is otherwise due to expire in December 2012 for a further two years. |
| 27 June 2012 | *Proposal for a Council Decision on the conclusion of the Nagoya-Kuala Lumpur **Supplementary Protocol on Liability and Redress to the Cartagena Protocol on Biosafety ("the Supplementary Protocol")*** (COM(2012)236) |

| | |
|---|---|
| | This proposal makes provision for conclusion of the Supplementary Protocol, which sets out rules governing liability and redress should the trans boundary movement of Genetically Modified Organisms have a significant adverse effect on the conservation and sustainable use of biological diversity – by the European Union. The UK signed the Supplementary Protocol in February 2012. |
| 9 July 2012 | *Amending Annexes I and IV to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council laying down **rules for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies to allow pig and poultry processed animal protein (PAP) to be incorporated into farmed fish feed*** (SANCO 10843/2011)<br><br>This proposal allows pig and poultry processed animal protein (PAP) to be incorporated into farmed fish only. The European Commission's longer term objective is to continue working with the EU Reference Laboratory for Animal Proteins in Feed regarding the development of a validated diagnostic method which is able to detect the presence of porcine or poultry material in food. |
| 11 July 2012 | *Proposal for a Regulation of the European Parliament and of the Council amending Council Regulation (EC) No 1005/2008 **establishing a Community system to prevent, deter and eliminate illegal, unreported and unregulated fishing** (COM(2012)332).*<br><br>This proposal empowers the Commission to adopt delegated acts for the following: the notification of information by fishing vessels and notification periods; the establishment of benchmarks for inspections of landings and transhipment operations by third country fishing vessels; the establishment of lists of products excluded from catch certificate obligations including their deadlines; rules around the establishment of approved economic operators; and the establishment of Union criteria for verifications in the context of risk management. |
| 13 July 2012 | *Draft Instrument for a Regulation of the European Parliament and of the Council amending Council Regulation (EC) No 850/98 concerning **the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juveniles of marine organisms** and repealing Council Regulation (EC) No 1288/2009* (COM(2012)298).<br><br>This proposal extends a set of transitional arrangements relating to |

| | |
|---|---|
| | fisheries technical conservation measures which will have to be agreed by the end of 2012 to prevent the measures lapsing. |
| 14 August 2012 | *Proposal for a regulation of the European Parliament and of the Council on **clinical trials on medicinal products for human use**, and repealing Directive 2001/20/EC* (COM(2012)369).<br><br>The proposal aims to simplify the rules for conducting clinical trials to ensure that they are identical throughout the EU. Such simplification will facilitate the conduct of multistate trials. The Regulation will replace the Clinical Trials Directive 2001/20/EC which was widely acknowledged to have reduced the attractiveness of the EU as a place to conduct clinical trials on medicines. |
| 15 August 2012 | *Draft Instrument for a Regulation of the European Parliament and of the Council amending Council Regulation (EC) No 850/98 concerning **the conservation of fishery resources through technical measures for the protection of juveniles of marine organisms*** (COM(2012)432)<br><br>This proposal aims to align the European Commission's existing powers relating to technical conversation rules for fishery resources in line with requirements set out in the Lisbon Treaty. These existing powers relate to: measuring nets and engine power; square mesh netting and twine thickness; construction of netting material; attachments which may obstruct or diminish mesh openings in nets; means of reporting on beam trawls; Member State restrictions on fishing effort in ICES Area IXa; and emergency measures for conservation of marine resources. |
| 15 August 2012 | *Draft Instrument for a Regulation of the European Parliament and of the Council **establishing specific conditions for deep-sea stocks in the North-East Atlantic and provisions for fishing in international waters of the North-East Atlantic** and repealing Regulation (EC) No 2347/2002* (COM(2012)371).<br><br>This proposal relates to specific management measures for the EU's deep sea fisheries. In particular it seeks to update and replace the current deep sea access regime (as currently set out in Regulation 2347/2002) with the aim of addressing four key problems with managing deep sea stocks. |
| 30 August | *Draft Instrument for a Regulation of the European Parliament and of the* |

| | |
|---|---|
| 2012 | *Council amending Council Regulation (EC) No 812/2004* ***laying down measures concerning incidental catches of cetaceans in fisheries*** *and amending Regulation (EC) No 88/98* (COM(2012)447).<br><br>This proposal aims to align the European Commission's existing powers in order to adapt conditions and technical specifications for the use of acoustic deterrent devices to reduce the incidental by-catch of cetaceans in specified fisheries (currently contained in Annex II of Regulation 812/2004); and to adapt the procedure and format for reporting obligations for Member States. |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru dan Fesurau'r Cynulliad

Hydref 2012

Mae'r papur hwn yn cynnwys rhestr o'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan gyfreithiau'r Cynulliad er 2007 a throsolwg o'r ffordd y mae'r pwerau hynny wedi cael eu gweithredu a'u harfer.

Mae'r wybodaeth yn y papur hwn yn gywir hyd fis Hydref 2012.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
**www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1268

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru dan Fesurau'r Cynulliad

Hydref 2012

Owain Roberts ac Alys Thomas

Rhif dogfen: 12 / 045

Gwasanaeth Ymchwil

## Crynodeb

Mae'r papur hwn yn cynnwys rhestr o'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan gyfreithiau'r Cynulliad er 2007 a throsolwg o'r ffordd y mae'r pwerau hynny wedi cael eu gweithredu a'u harfer. Mae'r wybodaeth yn y papur hwn yn gywir hyd fis Hydref 2012.

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 5**

**2. Mesurau'r Cynulliad a basiwyd yn y trydydd Cynulliad (2007-2011) ..... 6**

2.1. Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 ..... 7
2.2. Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ..... 12
2.3. Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ..... 15
2.4. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ..... 19
2.5. Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 ..... 24
2.6. Mesur Addysg (Cymru) 2009 ..... 26
2.7. Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ..... 30
2.8. Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 - ..... 39
2.9. Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 ..... 43
2.10. Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 ..... 45
2.11. Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 ..... 47
2.12. Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 ..... 48
2.13. Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ..... 50
2.14. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ..... 58
2.15. Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ..... 63
2.16. Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 ..... 66
2.17. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ..... 68
2.18. Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 ..... 79
2.19. Mesur Tai (Cymru) 2011 ..... 82
2.20. Mesur Addysg (Cymru) 2011 ..... 83

# Is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru o dan Fesurau a Deddfau'r Cynulliad

## 1. Cyflwyniad

Deddfwriaeth a wneir gan unigolyn neu gorff dan bwerau a roddir gan ddeddfwriaeth sylfaenol fel Deddf Senedd y DU, Mesur y Cynulliad neu Ddeddf y Cynulliad yw is-ddeddfwriaeth. Mae is-ddeddfwriaeth yn ategu Mesurau'r Cynulliad, Deddfau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig ac fel arfer maent ar ffurf Offerynnau Statudol a gallant gynnwys codau ymarfer, adroddiadau, gorchmynion, rheoliadau, rheolau, cynlluniau neu ganllawiau. Mae Offeryn Statudol Cymreig yn fath o is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn benodol ac sy'n cael ei wneud o dan yr awdurdod sydd yn Neddfau Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Gymru neu o dan yr awdurdod sydd ym Mesurau a Deddfau'r Cynulliad.[1]

Ers i'r Cynulliad gael pwerau deddfwriaethol am y tro cyntaf o dan Ran 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i basio ei gyfreithiau sylfaenol ei hun, mae nifer sylweddol o Fesurau wedi cael eu pasio gan y Cynulliad.[2] Mae'r rhan fwyaf o'r Mesurau hyn yn rhoi nifer o bwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd datganoledig.

Mae'r papur hwn yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru yn sgil deddfau'r Cynulliad er 2007 a throsolwg o'r ffordd y mae'r pwerau hyn wedi cael eu gweithredu a'u harfer. Noder, fodd bynnag, gan mai dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru sydd yn y ddogfen hon, nid yw'n cynnwys gwybodaeth am y darpariaethau ar wyneb Mesurau a Deddfau lle nad yw'n ofynnol i is-ddeddfwriaeth gael ei gwneud cyn iddynt ddod i rym.

**Mae'r wybodaeth yn y papur hwn yn gywir hyd fis Hydref 2012.**

---

[1] Mae rhagor o wybodeth am is-ddeddfwriaeth yn y Cynulliad a'r amrywiol weithdrefnau craffu sy'n berthansol iddynt i'w gweld yn yr **Hysbysiad Hwylus: Is-ddeddfwriaeth**.
[2] Arferwyd galw deddfau sylfaenol a wneir o dan Ran 3 o Ddeddf 2006 yn "Fesurau". Ar ôl y refferendwm ac ar ôl symud i ran 4 o Ddeddf 2006, erbyn hyn gelwir deddfau sylfaenol arfaethedig yn "Filiau'r Cynulliad" ac yna'n "Ddeddfau'r Cynulliad" ar ôl iddynt gael eu pasio.

## 2. Mesurau'r Cynulliad a basiwyd yn y trydydd Cynulliad (2007-2011)

Rhwng 2007 a 2011, pasiodd y Cynulliad gyfanswm o 22 o Fesurau. O blith y rhain, cyflwynwyd 17 gan Weinidogion Cymru a chyflwynwyd tri Mesur arall gan Aelodau meinciau cefn y Cynulliad.[3] Roedd pob un o'r Mesurau hyn yn rhoi pwerau, i amrywiol raddau, i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a gorchmynion drwy is-ddeddfwriaeth. Rhoddir manylion y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan bob Mesur a gwybodaeth am sut y mae'r pwerau hynny wedi cael eu harfer hyd yma (hyd fis Medi 2012) isod.

[3] Cyflwynwyd y ddau Fesur arall gan Gomisiwn y Cynulliad a Phwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad ond ni roddodd y rhain bwerau i Weinidogion Cymru. Y Mesurau hyn oedd *Mesur Comisynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009*, a roddodd sail statudol i Gomisiwn Safonau'r Cynulliad, a *Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010* a sefydlodd Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|

## 2.1. *Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 9 Gorffennaf*

| | |
|---|---|
| Mae *Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008* yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau ar gyfer trefniadau gwneud iawn am gamweddau'r GIG a fydd yn setlo achos heb orfod mynd i'r llys lle y dynodwyd atebolrwydd cymwys mewn camwedd. | Ers cychwyn y Mesur ar 2 Chwefror 2011,[4] mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt yn sgil y Mesur i wneud un gyfres o reoliadau a rheoliad diwygio dilynol. |
| Mae Adran 1 yn cynnwys y cyrff, y personau a'r gwasanaethau yng Nghymru y mae'r Mesur yn berthnasol iddynt, ac yn esbonio'r atebolrwydd mewn camwedd sy'n gymwys. Mae'r adran hefyd yn darparu ar gyfer **atebolrwydd mewn mannau eraill** fel rhan o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.<br><br>Disgrifir y cyrff a'r personau fel:<br>▪ Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd y GIG;<br>▪ Awdurdodau Iechyd Arbennig;<br>▪ Gweinidogion Cymru;<br>▪ Unrhyw gorff neu berson sy'n darparu neu sy'n trefnu i ddarparu gwasanaethau yng Nghymru o ganlyniad i | Gwnaethpwyd[5] *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011*[6] gan Weinidogion Cymru ar 8 Mawrth 2011 a daethant i rym[7] ar 1 Ebrill 2011 (ac eithrio Rhan 7 o'r rheoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012 – gweler isod). Cânt eu gwneud o dan y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru gan **Adrannau 1 i 7, 9, 11 a 12** o'r Mesur.<br><br>Prif nod y rheoliadau hyn yw rhoi dyletswydd ar y GIG a darparwyr gofal iechyd sylfaenol yng Nghymru i wneud trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion ac ymchwilio iddynt. Yn ogystal mae'r rheoliadau'n rhoi dyletswydd ar y GIG a darparwyr gofal sylfaenol yng Nghymru i benderfynu p'un a |

[4] Gweler ***Gorchymyn Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 (Cychwyn) 2011***, OS 2011/211 (Cy.42)
[5] Mae Offeryn Statudol yn cael ei "wneud" pan gaiff ei gymeradwyo'n ffurfiol gan un o Weinidogion Cymru.
[6] ***Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011*** *(OS 2009/704) (Cy.108)*
[7] Mae Offeryn Statudol yn dod yn gyfraith ar y diwrnod y bydd yn "dod i rym".

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| drefniant gydag unrhyw un o'r cyrff uchod. Mae hyn yn golygu y gallai ymarferwyr cyffredinol, h.y deintyddion, fferyllwyr, offthalmolegwyr sy'n darparu gofal drwy'r GIG neu ysbytai annibynnol a gomisiynir i ddarparu gofal fel rhan o'r GIG fod yn atebol.<br><br>O dan y Mesur, mae gan Weinidogion bwerau i bennu mewn Rheoliadau unrhyw **gorff neu berson arall** a allai fod yn atebol. | ddylent gynnig gwneud iawn i glaf os bydd ymchwiliad yn datgelu bod "atebolrwydd cymwys" neu y gall fod "atebolrwydd cymwys".<br><br>Diwygiwyd y rheoliadau hyn yn ddiweddarach gan *Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011*[8] gan ohirio dod â Rhan 7 o'r rheoliadau hynny i rym rhwng 1 Hydref 2011 ac 1 Ebrill 2012. Mae Rhan 7 o'r rheoliadau cychwynnol yn ymdrin â sut y darperir trefniadau unioni cam os bydd cyrff GIG Cymru yn gwneud trefniadau gyda darparwyr y GIG y tu allan i Gymru i ddarparu gwasanaethau.[9] |
| Mae Adran 1(4) yn esbonio'r atebolrwydd cymwys mewn camwedd:<br><br>Anaf personol neu golled sy'n deillio o dordyletswydd gofal neu sy'n gysylltiedig ag ef a'r ddyletswydd gofal honno'n ddyledus i unrhyw berson mewn cysylltiad â diagnosio salwch neu wrth ofalu am unrhyw glaf neu ei drin.<br><br>Rhaid i'r atebolrwydd cymwys ddeillio o wasanaethau cymwys. Bydd y gwasanaethau cymwys yn cael eu hamlinellu yn y Rheoliadau. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.* |

[8] ***Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011*** (OS 2011/1706) (Cy.192)
[9] Llywodraeth Cymru, ***Memorandwm Esboniadol i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2011***, *11 Gorffennaf 2011*, paragraff 1(Saesneg yn unig)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 2 yn amlinellu'n fanwl y math o ddarpariaeth y gallai Gweinidogion ei gwneud neu y mae'n rhaid iddynt ei gwneud mewn perthynas â threfniadau gwneud iawn am gamweddau **y maent yn barnu ei bod yn addas.** Mae adrannau 2(2), 2(3) a 2(6)(b) yn cynnwys y darpariaethau y mae'n **rhaid** eu gwneud mewn Rheoliadau. Cynhwysir y darpariaethau y **gellir** eu gwneud mewn Rheoliadau yn adrannau 2(4) a 2(5). | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.* |
| Mae Adran 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud y darpariaethau y maent yn barnu eu bod yn addas mewn perthynas ag ymofyn am iawn gan gynnwys amgylchiadau lle **na chaniateir** ymofyn am iawn. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.* |
| Mae Adran 4 yn rhoi pwerau i Weinidogion wneud darpariaeth i ystyried y posibilrwydd o gymhwyso trefniadau iawn. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.* |
| Mae Adran 5 yn cwmpasu'r dull darparu iawn. Mae adran 5(2) yn ymwneud ag eitemau y gall Gweinidogion wneud darpariaethau ar eu cyfer; mae adrannau 5(3) 5(5) a 5(6) yn ymwneud ag eitemau y mae'n rhaid i Weinidogion wneud darpariaethau ar eu cyfer. O dan is-adran (4) gellir gwneud Rheoliadau i ddarparu ar gyfer amgylchiadau lle nad oes angen darparu copi o adroddiad ymchwiliad. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011..* |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| O dan Adran 6 rhaid gwneud Rheoliadau er mwyn atal dros dro gyfnod y cyfyngiad am unrhyw atebolrwydd yr ymchwilir iddo. Yn ogystal, gall y rheoliadau ddiffinio pryd y mae atebolrwydd yn destun cais am iawn. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011*.. |
| Mae Adran 7 yn galluogi Gweinidogion i wneud darpariaeth i sicrhau bod unigolion yn cael cyngor cyfreithiol a gwasanaethau gan arbenigwyr meddygol yn ddi-dâl.<br>Noda Adran 7(4) os bwriedir comisiynu cyngor gan arbenigwr meddygol, y byddai hyn yn cael ei wneud ar y cyd gan gorff perthnasol y GIG a'r unigolyn sy'n ceisio iawn. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011*.. |
| Mae Adran 8 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i drefnu cynrychiolaeth i unigolion sy'n ceisio iawn o dan y Rheoliadau. Mae hyn yn wahanol i'r gynrychiolaeth gyfreithiol uchod a gallai gynnwys, er enghraifft, eiriolaeth. | |
| Mae Adran 9 yn darparu bod y Rheoliadau yn gallu gwneud darpariaeth i unrhyw berson neu gorff o fewn y gwasanaeth iechyd fod â swyddogaethau'n ymwneud â gweithredu trefniadau iawn. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011*. |
| Mae Adran 10 yn diwygio'r *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau)* i roi'r hawl i bobl gwyno ynghylch y ffordd y caiff trefniadau iawn eu gweinyddu. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 11 yn ymdrin â'r ffordd y bydd gorchmynion a Rheoliadau yn cael eu gwneud o dan *Fesur 2008*. Mae Adran 11(6) yn gwneud darpariaeth ar gyfer defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol pan wneir y Rheoliadau cyntaf o dan adrannau 1(1), 2, 4, 6, 7, neu 9 neu pan wneir Rheoliadau o dan adrannau 1(4)(b), 1(5), 3 neu 5 neu ar bob achlysur y caiff Rheoliadau eu gwneud o dan Adran 12(2). | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.* |
| O dan Adran 12 caniateir i Weinidogion wneud darpariaethau cysylltiedig eraill i roi effaith i *Fesur 2008*. Yn benodol, mae adran 12(2) yn caniatáu i Weinidogion ddiwygio neu ddiddymu unrhyw Ddeddf Seneddol ac offeryn statudol o ganlyniad i newidiadau sydd eu hangen yn sgil y Rheoliadau. Cyfyngir ar gwmpas y pwerau hyn yn sgil y pŵer sydd yn y Mesur i ddiwygiadau sy'n gysylltiedig â Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011.* |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| *2.2. Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Rhagfyr 2008* | |
| Mae *Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* yn gwneud darpariaeth ynghylch teithio gan ddisgyblion sy’n cael addysg gynradd, addysg uwchradd neu addysg bellach neu hyfforddiant i ysgolion neu i fannau eraill lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant, ac oddi yno. Diwygiwyd y Mesur hwn y ddiweddarach gan *Fesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011* i gynnwys darpariaethau ychwanegol yn ymwneud â theithio gan ddysgwyr.<br><br>Mae Adran 2(1) (c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch rhagnodi dysgwyr eraill i gael eu cynnwys mewn asesiad o anghenion teithio.<br><br>Mae Adran 3(9) yn rhoi pŵer galluogi i Weinidogion Cymru a fydd yn caniatau iddynt wneud Rheoliadau ar hawl plant i gael cludiant.<br><br>Mae pwerau o dan Adran 7 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch trefniadau teithio i bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant ôl-16. | Cychwynnwyd darpariaethau’r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 10 Chwefror 2009 a 4 Ionawr 2010.[10] |

[10] Gweler ***Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (Cychwyn Rhif) 2009*** (OS 2009/371) (Cy.39); ***Gorchymyn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (Cychwyn Rhif 2) 2009*** (OS 2009/2819) (Cy.245)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Rhoddodd Adran 8 bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch trefniadau teithio i blant mewn addysg feithrin. | |
| Mae Adran 12 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Cod Ymddygiad wrth Deithio.<br>Mae Adran 12(3)(c) hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau am ddysgwyr eraill y bydd y cod ymddygiad wrth deithio yn berthnasol iddynt | Cyhoeddwyd ***Cod Ymddygiad wrth Deithio*** statudol gan Lywodraeth Cymru ar 30 Hydref 2009. Daeth i rym ym mis Ionawr 2010. Mae'r Cod yn cwmpasu pob dull teithio yn cynnwys bysiau, trenau, cerdded a beicio i bob dysgwr rhwng 5 a 19 oed. |
| Mae Adran 16 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am asesiadau, trefniadau teithio a'r cod ymddygiad wrth deithio | Mae *Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009* yn pennu'r wybodaeth y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei chyhoeddi ynghylch trefniadau teithio rhwng y cartref a'r ysgol yn eu hardal hwy. Diwygiwyd y gofynion cychwynnol hyn yn ddiweddarach gan *Reoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) (Diwygio) 2010* (OS 2010/192) a roddodd ofyniad arall ar awdurdodau lleol i gyhoeddi'r cod ymddygiad wrth deithio a wnaethpwyd o dan Adran 12 o'r Mesur. Gwnaethpwyd y rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru ar 9 Mawrth 2009 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2009. |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 21 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau'n ymwneud â'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn pan fydd awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau i newid amserau dechrau a gorffen sesiynau ysgol. | Mae *Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgol (Cymru) 2009* yn pennu'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn er mwyn newid amserau dechrau a gorffen sesiynau ysgol. Gwnaethpwyd y rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru ar 9 Mawrth 2009 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2009. |
| Mae Adran 27(2), (3) and (4) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth gysylltiedig, atodol, trosiannol, arbed neu ganlyniadol gan gynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|

## 2.3. *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 13 Mai 2009*

| | |
|---|---|
| Nod *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* yw sicrhau y gall dysgwyr rhwng 14 a 19 oed ddewis o blith ystod o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol er mwyn cyflawni eu potensial. | Cychwynnwyd darpariaethau'r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 7 Rhagfyr 2009 a 14 Chwefror 2011.[11]<br><br>Hyd yma, ni wnaethpwyd rheoliadau o dan bwerau'r Mesur. Fodd bynnag, cynhaliodd Llywodraeth Cymru **Ymgynghoriad ar y Polisi a fydd yn Llywio Rheoliadau dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009** (Saesneg yn unig) (o dan y pwerau a gynhwysir yn Adrannau 7, 9, 11, 25, 26 a 28) a daeth i ben ar 14 Gorffennaf 2009.<br><br>Mae rhestr o ymatebion i'r Ymgynghoriad wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: **Ymatebion i'r ymgynghoriad** (Saesneg yn unig).<br><br>Yn ogystal craffwyd ar y Mesur ar ôl y broses ddeddfu gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad yn ystod y pedwerydd Cynulliad. Cyhoeddwyd **Adroddiad y Pwyllgor** ym mis Mai 2012. Hwn oedd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth Gymreig i gael ei archwilio gan Bwyllgor i asesu pa mor llwyddiannus oedd ei weithrediad hyd yn hyn. |

[11] Gweler ***Gorchymyn Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2009*** (OS 2009/3174) (Cy.276) a ***Gorchymyn Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2) 2011*** (OS 2011/97) (Cy.20)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
| --- | --- |
| Mae Adran 4(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n amlinellu’r drefn o lunio cwricwla lleol. Gall hyn gynnwys pennu lleiafswm o gyrsiau i’w cynnig yn y cwricwlwm lleol neu mewn maes dysgu penodol mewn cwricwlwm lleol; pennu’r gyfran o’r cyrsiau hyn y mae’n rhaid iddynt fod yn gyrsiau galwedigaethol; ac atal unrhyw newid i gynnwys cwricwlwm lleol yn ystod cyfnod penodedig. | |
| Gall Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Adrannau 7(2) a 26(3) wneud darpariaeth i ddysgwyr ddewis cyrsiau ar gyfer cwricwlwm lleol. Gallai rheoliadau o’r fath bennu uchafswm ar gyfer math penodol o gyrsiau astudio y mae gan ddisgybl hawlogaeth i ddewis eu hastudio; nodi’r pwyntiau y dylid eu dyrannu i gyrsiau astudio a phennu uchafswm ar gyfer pwyntiau cyfunol; a chyfnod ar gyfer gwneud dewisiadau. | |
| Mae Adrannau 9(3) a 28(3) yn galluogi Gweinidogion i wneud rheoliadau ar y terfynau amser perthnasol ar gyfer penderfyniadau gan benaethiaid neu brifathrawon mewn amgylchiadau lle na all disgybl ddilyn cwrs, ac ar y gweithdrefnau ar gyfer gwneud y penderfyniadau hyn a’r gweithdrefnau a’r terfynau amser ar gyfer apelio. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Gwneir darpariaethau tebyg i'r rhai a amlinellir uchod o dan Adrannau 11(5) a 30(3) sy'n galluogi Gweinidogion, drwy Orchymyn, i ddiwygio, ychwanegu neu hepgor unrhyw un o'r seiliau penodedig y gall penaethiaid neu brifathrawon eu defnyddio i benderfynu nad oes hawlogaeth gan ddisgybl i ddilyn cwrs neu nad oes hawlogaeth gan ddisgybl i barhau i ddilyn cwrs.<br><br>O dan Adran 15 gall Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, ddiwygio'r "meysydd dysgu". Diffinnir y rhain ar hyn o bryd yn Adran 4(3) y Mesur fel mathemateg, gwyddoniaeth a thechnoleg; busnes, gweinyddiaeth a'r gyfraith; gwasanaeth i bobl; celfyddydau, y cyfryngau ac ieithoedd; y dyniaethau, gwyddorau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer bywyd a gwaith.<br><br>Mae Adran 16 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cymhwyso darpariaethau'r Mesur i blant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt wedi'u cofrestru fel disgyblion ysgol a gynhelir ond sy'n cael addysg yn y sector addysg bellach yng Nghymru. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 17 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cymhwyso darpariaethau'r Mesur i blant o oedran ysgol gorfodol sydd wedi'u cofrestru fel disgyblion ysgol arbennig a gynhelir ac i blant dros oedran ysgol gorfodol sy'n fyfyrwyr mewn sefydliadau sy'n darparu addysg yn gyfan gwbl neu'n bennaf i bersonau a chanddynt anawsterau dysgu.<br><br>Mae Adran 25 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch penderfynu ar "relevant school or institution" y disgybl a cheisiadau gan ddisgyblion a phenderfyniadau penaethiaid neu brifathrawon, gan gynnwys darpariaeth benodol o ran y dyddiad a'r amser y dylid gwneud cais neu benderfyniad. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| **2.4. *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mehefin 2009*** | |
| Bwriad *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009* yw gwneud awdurdodau lleol yn fwy effeithiol drwy roi dyletswyddau statudol newydd arnynt mewn perthynas â gwella gwasanaethau a chynllunio strategol. | Cychwynnwyd darpariaethau'r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 17 Gorffennaf 2009 a 1 Ebrill 2011.[12]<br><br>Ers cychwyn ei ddarpariaethau perthnasol, mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi chwech o reoliadau o dan y pwerau a roddwyd iddynt yn sgil y Mesur. Yn ogystal â'r rhain, gwnaethpwyd Gorchymyn [13] yn gwneud diwygiadau canlyniadol i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* gan Weinidogion Cymru ar 3 Chwefror 2010 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2010. |
| Mae Adran 8 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu dangosyddion perfformiad y bydd perfformiad "awdurdod gwella Cymreig" (h.y. cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol ac Awdurdod Tân ac Achub Cymru) yn cael ei fesur yn eu herbyn. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru drwy orchymyn y disgresiwn i bennu gwahanol ddangosyddion a safonau perfformiad ar gyfer gwahanol fathau o awdurdodau. | Gwnaethpwyd *Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010*[14] gan Weinidogion Cymru ar 24 Chwefror 2010 a daeth i rym ar 1 Mawrth 2010. Mae'r Gorchymyn yn pennu'r dangosyddion y bydd perfformiad cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yn cael ei fesur yn eu herbyn. Roedd y dangosyddion hyn yn cwmpasu'r swyddogaethau canlynol: Gwasanaethau Cymdeithasol; Tai; Addysg; Rheoli Gwastraff; |

[12] Gweler ***Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1) 2009*** (OS 2009/1796) (Cy.163); ***Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2009*** (OS 2009/3272) (Cy.288); ***Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Diwygio) 2010*** (OS 2010/2237) (Cy.196)

[13] ***Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (Addasiadau Canlyniadol) 2010*** (OS 2010/212) (Saesneg yn unig)

[14] ***Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad a Safonau Perfformiad) (Cymru) 2010*** (OS 2010/482) (Cy.51)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| | Cludiant/Priffyrdd; Diwylliant a Chwaraeon; Effeithlonrwydd Ynni; Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor.<br><br>Mae dau o’r dangosyddion perfformiad a nodir yng Ngorchymyn 2010 sy’n ymwneud â Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor wedi cael eu dileu gan *Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012*[15], a wnaed gan Weinidogion Cymru ar 2 Hydref 2012 ac a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2013.<br><br>Gwnaethpwyd *Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011*[16] gan Weinidogion Cymru ar 21 Chwefror 2011 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2011. Mae’r Gorchymyn yn pennu’r dangosyddion y bydd perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn cael ei fesur yn eu herbyn. |
| Mae Adran 15 (7) (b) yn rhoi rhwymedigaeth ar awdurdodau gwella Cymreig i baratoi a chyhoeddi gwybodaeth benodedig (sef cynlluniau gwella ac adroddiadau asesu) erbyn dyddiadau penodol. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddiwygio’r dyddiadau hyn. | Gwnaethpwyd *Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010*[17] gan Weinidogion Cymru ar 24 Chwefror 2010 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2010. Fe’i dirymwyd yn ddiweddarach a’i ddisodli gan *Orchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012*[18] sy’n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau gwella awdurdodau tân ac achub Cymru, o |

[15] *Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012* (OS 2012/2539) (Cy.378)
[16] *Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2011* (OS 2011/558) (Cy.80)
[17] *Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010* (OS 2010/481) (Cy.50)
[18] *Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012* (OS 2012/1143) (Cy.137)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| | 1 Ebrill 2013 ymlaen, gael eu cyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynllun gwella'n berthnasol iddo. |
| Gwna'r Mesur nifer o ddarpariaethau ynghylch archwilio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau lleol, ac ynghylch swyddogaethau'r amrywiol gyrff sy'n ymgymryd â gwaith o'r fath. Yn benodol, mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydgysylltu eu gweithgareddau ym mhob awdurdod lleol a chynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddod i gasgliadau cyffredinol ynghylch i ba raddau y mae awdurdod lleol wedi gwella ac i ba raddau y gall barhau i wella. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i wneud Rheoliadau i ychwanegu at y rhestr yn Adran 16 mewn ymateb i "amgylchiadau sy'n newid". Fodd bynnag, **ni chaniateir** i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn o'r fath oni fyddant wedi ymgynghori â'r cyrff rheoleiddio yr effeithir arnynt, awdurdodau gwella Cymreig ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
| --- | --- |
| Mae Adran 19 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, i nodi dyddiad arall ar gyfer cyflwyno adroddiadau archwilio ac asesu gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y cyfan y byddai Gorchymyn o'r fath yn ei wneud fyddai newid terfyn amser gweinyddol. | Gwnaethpwyd *Gorchymyn Adroddiadau Asesu ac Archwilio (Cymru) 2010*[19] gan Weinidogion Cymru ar 29 Tachwedd 2010 a daeth i rym y diwrnod canlynol. Fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach gan *Orchymyn Adroddiadau Asesu ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2011*[20] a ddaeth i rym ar 22 Tachwedd 2011. Mae'r gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru anfon copïau o unrhyw adroddiadau archwilio ac asesu a gyhoeddwyd o dan Adran 19(2) o'r Mesur at Weinidogion Cymru a'r awdurdod gwella Cymreig dan sylw erbyn 31 Ionawr ym mhob blwyddyn ariannol. |
| Mae'r Mesur hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (drwy Orchymyn) wneud darpariaeth i addasu neu eithrio cymhwyso deddfiadau sy'n berthnasol i awdurdodau gwella Cymreig.<br>Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru bŵer i roi unrhyw bŵer ychwanegol i awdurdod gwella Cymreig y maent o'r farn ei fod yn angenrheidiol i hwyluso cydymffurfedd â rhan 1 y Mesur. | |

[19] *Gorchymyn Adroddiadau Archwilio ac Asesu (Cymru) 2010* (OS 2010/2853) (W.235) (Saesneg yn unig)
[20] *Gorchymyn Adroddiadau Archwilio ac Asesu (Cymru) (Diwygio) 2011* (OS 2011/2602) (Cy.280)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae’r pwerau yn adrannau 31 a 32 yn eang a gallent ganiatáu i nifer o ddeddfau sylfaenol gael eu diwygio drwy Orchymyn. Felly dylai Gorchmynion a wneir o dan y darpariaethau hyn fod yn amodol ar y weithdrefn uwchgadarnhaol. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| ***2.5. Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 - Rhyddwyd Cymeradwywaeth Frenhinol ar 15fed Hydref 2009*** | |
| Mae'r Mesur hwn yn rhoi dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i hybu disgyblion i fwyta ac yfed yn iach ac mae'n rhoi nifer o bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'n fanwl gynnwys y bwyd a weinir mewn ysgolion, gan gynnwys pwerau i bennu uchafsymiau braster, braster dirlawn, halen a siwgr mewn bwyd a ddarperir i ddisgyblion. Caiff y pwerau hyn eu crynhoi fesul adran isod. | Hyd yma, nid oes unrhyw reoliadau wedi cael eu gwneud o dan y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru yn sgil y Mesur hwn. Fodd bynnag, cyhoeddodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, **ddatganiad ysgrifenedig gan y cabinet** ar 6 Awst 2012 lle y nododd fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno rheoliadau drafft gerbron y Cynulliad yn gynnar yn 2013. Caiff ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft ei gynnal maes o law cyn y dyddiad hwnnw.<br><br>Yn ogystal, cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y dyletswyddau a gynhwysir yn Adrannau 1, 2, 5, 6, a 7 o'r Mesur sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol hybu disgyblion i fwyta ac yfed yn iach yn dod i rym ar ddyddiad diweddarach. |
| Mae Adran 1 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar beth mae bwyta ac yfed yn iach yn ei olygu; y camau priodol i'w cymryd a sut y dylid cymhwyso egwyddorion datblygiad cynaliadwy i fwyta ac yfed yn iach. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 4 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â'r bwyd a'r ddiod a ddarperir ar fangre ysgol. Gall y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon bennu safonau maethiad neu ofynion eraill ynglŷn â maethiad a phennu uchafsymiau braster, braster dirlawn, halen a siwgr.<br><br>Mae Adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ar ddŵr yfed mewn ysgolion.<br><br>Mae Adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â diogelu manylion adnabod disgyblion sy'n cael cinio ysgol neu laeth am ddim. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| **2.6. *Mesur Addysg (Cymru) 2009 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 15fed Hydref 2009*** | |
| Mae *Mesur Addysg (Cymru) 2009* yn rhoi hawl i blant yng Nghymru apelio mewn cysylltiad ag anghenion addysgol arbennig ac i wneud hawliad â gwahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae hefyd yn rhoi hawl annibynnol i blant ag anghenion addysgol arbennig i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir am eu hanghenion o ran cymorth addysgol. | Cychwynnwyd darpariaethau'r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 15 Hydref 2009 a 6 Mawrth 2012.[21]<br><br>Gwnaeth Gweinidogion Cymru ddiwygiadau canlyniadol i'r Mesur ar ôl i *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* gael ei phasio drwy wneud *Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011*[22] a ddaeth i rym ar 5 Gorffennaf 2011. |
| Mae Adrannau 3 a 10 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu bod plentyn neu blentyn anabl yn gallu cael person (a elwir yn "gyfaill achos") i wneud sylwadau ar ran y plentyn er mwyn osgoi neu ddatrys anghydfodau gyda'r Awdurdod Addysg Lleol, neu i arfer hawl plentyn i apelio ar ran y plentyn. Gall y rheoliadau roi swyddogaethau i Dribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig Cymru; gwneud darpariaeth ynghylch penodi neu ddiddymu cyfaill achos; pennu amgylchiadau lle y gall person weithredu a lle na all person weithredu fel cyfaill achos; pennu amgylchiadau lle y mae'n rhaid i blentyn gael cyfaill | |

[21] Gweler *Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 1) Order 2011* (OS 2011/1468) (Cy.173); *Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 2) 2011* (OS 2011/1951) (Cy.215); *Gorchymyn Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Trosiannol) 2012* (OS 2012/320) (Cy.51)
[22] *Gorchymyn Hawl Plentyn i Wneud Hawliad Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Ysgolion) (Cymru) 2011* (OS 2011/1651) (Cy.187)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
| --- | --- |
| achos; a phennu gofynion mewn perthynas ag ymddygiad cyfaill achos.<br><br>Mae Adrannau 4 ac 11 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau y mae’n rhaid i Awdurdodau Addysg lleol eu dilyn wrth wneud trefniadau i ddarparu cyngor a gwybodaeth i blant, eu rhieni neu gyfeillion achos.<br><br>Mae Adrannau 5 a 12 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau y mae’n rhaid i Awdurdodau Addysg lleol eu hystyried wrth wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau.<br><br>Mae Adrannau 6 a 13 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau y mae’n rhaid i Awdurdodau Addysg Lleol eu hystyried mewn perthynas â threfniadau gwasanaethau eirioli.<br><br>Mae Adrannau 7 a 14 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ohirio achosion o dan rai amgylchiadau ac i ychwanegu neu ddirprwyo partïon mewn achosion apêl. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 17 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru dreialu'r hawliau a roddir i blentyn o dan y Mesur hwn am gyfnod o hyd at 40 o fisoedd. Yn ogystal, mae'r Adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ar gyfer adroddiadau, neu wybodaeth arall am weithrediad y cyfnod treialu. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012*[23] gan Weinidogion Cymru ar 13 Chwefror 2012 a daethant i rym ar 6 Mawrth 2012. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i roi effaith i Adran 17 o'r mesur sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i dreialu hawliau plentyn i apelio neu i wneud hawliad i'r Tribiwnlys.<br><br>Gwnaethpwyd *Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) 2012*[24] i gyd-fynd â'r Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru a daethant i rym ar yr un dyddiadau. Mae'r rheoliadau'n cynnwys manylion cynnig Gweinidogion Cymru i dreialu'r hawliau a'r dyletswyddau newydd a roddir i blant o dan Ran 1 o'r Mesur yn ardaloedd Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. |

[23] ***Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012*** (OS 2012/322) (Cy.53)
[24] ***Rheoliadau Mesur Addysg (Cymru) 2009 (Treialu) 2012*** (OS 2012/321) (Cy.52)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 18 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy orchymyn ynghylch y materion sy’n cael eu treialu. Mae hyn yn cynnwys pŵer i ychwanegu, dileu neu addasu hawliau, a gwneud diwygiadau canlyniadol a diddymu darpariaethau’r Deddfau hynny. Diben y pŵer yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rhagor o ddarpariaethau ynghylch hawliau plant i wneud apeliadau a hawliadau yng ngoleuni gwybodaeth a gesglir yn ystod y cyfnod treialu. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| *2.7. Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Chwefror 2010* | |
| Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau statudol er mwyn rhoi rhagor o gymorth i deuluoedd lle y gall plant fod mewn perygl. Yn benodol, mae’r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi strategaeth tlodi plant ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd.<br><br>Mae Adran 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio amcanion cyffredinol y Mesur (fel yr amlinellir yn Adran 1) drwy Orchymyn.<br><br>Mae Adran 2 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i nodi amcanion penodol ar gyfer awdurdod Cymreig y tu hwnt i’r amcanion y gallai’r awdurdod Cymreig ddewis eu pennu iddo’i hun. | Cychwynnwyd darpariaethau’r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 1 Medi 2010 a 31 Mawrth 2012.[25] |

[25] Gweler *Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2010* (OS 2010/1699) (Cy.160); *Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 2, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) 2010* (OS 2010/2582) (Cy.216); *Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 2, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) a (Diwygiadau Canlyniadol) 2011* (OS 2011/577) (Cy.82); *Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Arbedion) 2010* (OS 2010/2994) (Cy.248); *Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 4) 2012* (OS 2012/191) (Cy.30)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 3 yn amlinellu'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwneud, cyhoeddi ac adolygu strategaethau tlodi plant a baratoir gan Weinidogion Cymru o dan Adran 1 y Mesur. Yn ogystal mae'r Adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad yn 2013 a phob tair blynedd wedi hynny, yn cynnwys asesiad o'r graddau y cyflawnwyd yr amcanion neu beidio. | |
| Mae Adran 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch llunio, cyhoeddi ac adolygu strategaethau a baratoir gan "awdurdodau Cymreig eraill". | Gwnaethpwyd *Rheoliadau'r Strategaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011*[26] gan Weinidogion Cymru ar 7 Mawrth 2011 a daethant i rym ar 6 Ebrill 2011. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau ynghylch y strategaethau tlodi plant statudol. Yn benodol maent yn amlinellu hyd y strategaethau; y gofynion ymgynghori; amseriad eu cyhoeddi; y dyddiadau cwblhau a'r trefniadau adolygu. |
| Mae Adran 6 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o awdurdodau Cymreig y mae'n ofynnol iddynt gynhyrchu strategaethau tlodi plant. | |

[26] ***Rheoliadau'r Strategaaeth Tlodi Plant (Cymru) 2011*** (OS 2011/675) (Cy.98)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 7 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn perthynas â’r ddyletswydd a roddir ar awdurdodau lleol o dan y Mesur i ddarparu gofal plant di-dâl i rai plant nad ydynt o oedran ysgol gorfodol. Gall y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y math o ofal plant y mae’n rhaid ei ddarparu; y cyfnod y mae ar gael disgrifiad o’r plentyn y bydd y gofal plant ar gael iddo. | |
| Mae Adran 10 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau cymorth i rieni yn ddi-dâl. | |
| Mae Adran 11 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau’n ymwneud â chyfleoedd chwarae i blant ac mae’n rhaid i awdurdodau lleol gymryd sylw o’r rheoliadau hyn. | Gwnaed *Rheoliadau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012*[27] gan Weinidogion Cymru ar 6 Hydref 2012 a byddant yn dod i rym ar 2 Tachwedd 2012. Maent yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i asesu digonolrwydd y cyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd. |
| Mae Adran 13 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer arolygu sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni’r swyddogaethau a roddir arnynt gan Adrannau 7 i 12 ac ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu. | |

[27] *Rheoliadau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012* (OS 2012/2555) (Cy.279)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Cymreig roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau i hyrwyddo'r amcanion cyffredinol o ran cyfrannu at ddileu tlodi plant. | |
| Mae Adran 18 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdod Cymreig i gymryd camau neu sicrhau cydymffurfedd â'r dyletswyddau a amlinellir yn Adrannau 2, 7, 10, 11 neu 12 lle y teimlir bod awdurdod Cymreig yn methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hynny neu'n debygol o fethu â chydymffurfio â hwy. | |
| Mae Adran 19 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid yr oedrannau y cyfeirir atynt yn y diffiniadau "gwarchod plant" a "gofal dydd i blant" ac i nodi'r amgylchiadau a gaiff eu heithrio o'r diffiniadau. | |
| Mae Adran 28 yn grymuso Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau y wybodaeth y mae'n rhaid i dystysgrif cofrestru darparwyr gofal dydd ei chynnwys. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010*[28] gan Weinidogion Cymru ar 20 Hydref 2011 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2011. Mae'r rheoliadau'n gwneud nifer o ddarpariaethau'n ymwneud â gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd sy'n weithredol yng Nghymru. Maent yn berthnasol i bersonau sy'n gweithredu fel gwarchodwyr plant |

[28] ***Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010*** (OS 2010/2574) (Cy.214)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
| --- | --- |
| | neu bersonau sy'n darparu gofal dydd i blant o dan wyth oed mewn mangreoedd yng Nghymru.<br><br>Gwnaethpwyd *Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (OS 2010/2839)*[29] gan Weinidogion Cymru ar 25 Tachwedd 2010 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2011. Mae'r gorchymyn yn amlinellu eithriadau i'r hyn a olygir wrth "warchod plant" neu "ofal dydd i blant". |
| Mae Adran 30 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'r gofynion ynghylch sut y mae personau cofrestredig yn ymgymryd â gweithgareddau gwarchod plant neu'n darparu gofal dydd.<br><br>Mae Adran 31 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau amgylchiadau eraill lle y gellir diddymu cofrestriad person.<br><br>Mae Adran 32 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer amgylchiadau penodol pan fydd modd atal dros dro gofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. | |

[29] *Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010* (OS 2010/2839) (Cy.233)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 35 yn caniatáu i Weinidogion Cymru amrywio neu ddiddymu amodau presennol, neu i ychwanegu amodau newydd, at gofrestriad person ar unwaith lle mae ganddynt achos rhesymol i gredu bod risg o niwed sylweddol i blentyn os na fyddant yn gwneud hynny. | |
| Mae Adran 38 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n pennu’r amgylchiadau y caiff person ei anghymwyso rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymwyso) (Cymru) 2010*[30] gan Weinidogion Cymru ar 28 Mehefin 2010 a daethant i rym ar 30 Gorffennaf 2010. Maent yn pennu’r categorïau o bersonau sydd wedi’u hanghymwyso rhag cofrestru yng Nghymru fel gofalwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd. |
| Mae Adran 40 yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i wneud darpariaeth i arolygu gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd yng Nghymru ac i gyhoeddi adroddiadau arolygu. | Amlinellwyd y trefniadau sy’n ymwneud ag arolygu’r rhai sy’n darparu gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd yn *Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010*[31] a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru ar 20 Hydref 2010 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2011. |

[30] ***Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Anghymwyso) (Cymru) 2010*** *(OS 2010/1703) (Cy.163)*
[31] ***Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010*** (OS 2010/2575) (Cy.215)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 45 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol ynghylch y rhai sydd wedi’u cofrestru i ddarparu gwasanaethau gwarchod plant neu ofal dydd. | |
| Mae Adran 47 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu gosod hysbysiadau cosb benodedig ar bersonau cofrestredig lle y maent yn fodlon bod person wedi cyflawni tramgwydd perthnasol. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i bennu mewn rheoliadau y tramgwyddau hynny y gellir ymdrin â hwy drwy hysbysiad cosb benodedig. | |
| Mae Adran 52 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i alluogi awdurdod lleol i sicrhau y darperir gwybodaeth neu gyngor am wasanaethau gwarchod plant a gofal dydd a sicrhau y darperir hyfforddiant am y ddarpariaeth gwarchod plant a gofal dydd. | |
| Mae Adran 53 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i warchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd cofrestredig dalu ffioedd i Weinidogion Cymru, yn cynnwys yr amgylchiadau lle y gellir hepgor ffioedd o’r fath. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 58 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi swyddogaethau awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol a fydd yn berthnasol i'r mathau o achosion y bydd Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd yn ymdrin â hwy. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2012*[32] gan Weinidogion Cymru ar 30 Ionawr 2012 a daethant i rym ar 28 Chwefror 2012. Mae'r Rheoliadau hyn yn amlinellu "swyddogaethau cymorth i deuluoedd" awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol. |
| Mae Adran 60 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru bennu cyfansoddiad proffesiynol y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2012*[33] gan Weinidogion Cymru ar 30 Ionawr 2012 a daethant i rym ar 28 Chwefror 2012. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys gofynion yn ymwneud â'r categorïau proffesiynol y mae'n rhaid i weithwyr sy'n aelodau o Dîm Integredig Cymorth i Deuluoedd gael eu dewis ohonynt. Maent hefyd yn amlinellu'r hyn y mae'n rhaid i Fwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd ei wneud er mwyn cyflawni'r amcanion a roddir iddo yn sgil adran 62 o'r Mesur. |
| Mae Adran 62 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi swyddogaethau a fyddai'n dweud sut y mae'n rhaid i Fwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd gyflawni'r amcanion. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) 2012* (gweler uchod). |

[32] *Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2012* (OS 2012/204) (Cy.34)
[33] *Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Cyfansoddiad Timau a Swyddogaethau Byrddau) (Cymru) 2012* (OS 2012/202) (Cy.33)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 63 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am amrywiol agweddau ar weithrediad y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2010*[34] gan Weinidogion Cymru ar 24 Mehefin 2010 a daethant i rym ar 1 Medi 2010. Cafodd y rheoliadau hyn eu dirymu'n ddiweddarach a'u disodli gan *Reoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2012*[35] a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru ar 30 Ionawr 2012 ac a ddaeth i rym ar 28 Chwefror 2012. Mae'r rheoliadau'n pennu gofynion ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol adolygu achosion teuluoedd sy'n cael eu cynorthwyo gan Dimau Integredig Cymorth i Deuluoedd. |
| Mae Adran 65 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd a'r Bwrdd Integredig Cymorth i Deuluoedd roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. | |

[34] ***Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2010*** (OS 2010/1700) (Cy.161)
[35] ***Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Adolygu Achosion) (Cymru) 2012*** (OS 2012/205) (Cy.35)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|

*2.8. Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 - Rhoddwyd cymeradwyaeth Frenhinol ar 17 Mawrth 2010*

| | |
|---|---|
| Mesur galluogi yw *Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010* sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddatblygu fframwaith mwy cyson i awdurdodau lleol pan fyddant yn codi ffioedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau unigol am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl. | Cychwynnwyd darpariaethau'r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 17 Mai 2010 a 18 Mawrth 2011.[36] |
| Mae Adran 2 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rheoli'r hyn a fydd yn ffi resymol neu'n cyfyngu ar hynny. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011*[37] gan Weinidogion Cymru ar 24 Mawrth 2011 a daethant i rym ar 11 Ebrill 11. Mae'r rheoliadau'n amlinellu darpariaethau y mae'n rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â hwy mewn achosion lle mae'n penderfynu codi ffi pan fydd yn darparu neu'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaeth y caniateir codi ffi amdano (sef cyfres o wasanaethau a ddiffinnir o dan Adran 13 y Mesur). |

[36] Gweler ***Gorchymyn Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011*** (OS 2011/849) (Cy.126)
[37] ***Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffiioedd) (Cymru) 2011*** *(OS 2011/962) (Cy.136)*

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011*[38] gan Weinidogion Cymru ar 6 Gorffennaf 2011 a daethant i rym ar 2 Awst 2011. Mae’r rheoliadau’n cywiro mân wallau drafftio a theipograffyddol yn y rheoliadau Ffioedd a Thaliadau Uniongyrchol Gofal Cymdeithasol. |
| Mae Adran 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n eithrio rhai personau neu wasanaethau y caniateir codi ffioedd amdanynt o’r system codi ffioedd. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011* a *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011*. Gweler uchod. |
| Mae Adran 4 yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau ffurf a chynnwys gwahoddiadau i ofyn am asesiadau modd a’r dull o wneud yr asesiadau hynny. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011* a *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011*. Gweler uchod. |
| Mae’r pwerau yn Adran 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch sut y dylid cynnal asesiadau modd. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011* a *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011*. Gweler uchod. |

[38] ***Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011*** *(OS 2011/1666) (Cy.190)*

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 6 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch pwy all wneud y cais am asesiad modd neu ddarparu'r wybodaeth ariannol angenrheidiol ar ran defnyddiwr gwasanaeth neu ddarpar ddefnyddiwr gwasanaeth. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011*. Gweler uchod. |
| Mae Adran 7 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn penderfynu p'un a yw'n rhesymol ymarferol i ddefnyddiwr gwasanaeth dalu ffi safonol. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011* a *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011*. Gweler uchod. |
| Mae Adran 9 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi amodau eraill mewn perthynas â'r darpariaethau a amlinellir yn yr Adran hon yn ymwneud ag awdurdod yn disodli penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesu Modd a Phenderfynu Ffioedd) (Cymru) 2011*. Gweler uchod. |
| Mae Adran 11 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau'n ymwneud â'r trefniadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu gwneud er mwyn adolygu penderfyniadau codi tâl. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Adolygu Penderfyniadau ar Godi Ffioedd) (Cymru) 2011*[39] gan Weinidogion Cymru ar 24 Mawrth 2011 a daethant i rym ar 11 Ebrill 2011. Mae'r rheoliadau'n rhoi hawl i'r sawl sy'n derbyn gwasanaeth y gosodwyd ffi arno o dan y Mesur i adolygu'r penderfyniad hwnnw. |

[39] ***Rheoliadau Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Adolygu Penderfyniadau ar Godi Ffioedd) (Cymru) 2011*** *(OS 2011/964) (Cy.138)*

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 12 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch taliadau uniongyrchol sy'n gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i'r ddarpariaeth y gellir ei gwneud o dan adrannau 1 i 11 o'r Mesur hwn. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011*[40] gan Weinidogion Cymru ar 24 Mawrth 2011 a daethant i rym ar 11 Ebrill 2011. Mae'r rheoliadau hyn yn amlinellu'r darpariaethau y mae'n rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â hwy mewn achosion lle mae'n ofynnol i oedolyn sy'n derbyn taliadau uniongyrchol wneud taliad tuag at y gost o sicrhau gwasanaeth y caniateir codi ffi amdano.<br><br>Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Adolygu Penderfyniadau ar Godi Ffioedd) (Cymru) 2011* a *Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2011*. Gweler uchod. |

[40] ***Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Taliadau Uniongyrchol) (Asesu Modd a Phenderfynu ar Ad-daliad neu Gyfraniad) (Cymru) 2011*** (OS 2011/963) (Cy.137)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| **2.9. *Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 11 Mai 2010*** | |
| Mae *Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010* yn dileu'r angen am Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad at ddibenion rheoli'r gwaith o ddatblygu a hybu diwydiant cig coch Cymru, ac mae'n gwneud Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol atebol am y diwydiant hwnnw. | Cychwynnwyd darpariaethau'r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 11 Gorffennaf 2010 a 1 Ebrill 2012.[41]<br>Diwygiwyd Atodlen 2 i'r Mesur sy'n ymwneud â symiau taliadau gan *Orchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011*[42] a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru ar 6 Rhagfyr 2011 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2012. |
| Mae Adran 3 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio manylion y Mesur drwy newid y geiriad, ychwanegu disgrifiadau newydd neu ddileu disgrifiadau presennol o'r gweithgareddau y gellir ymgymryd â hwy i ddatblygu a hybu'r diwydiant cig coch. | |

[41] Gweler ***Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2011*** (OS 2011/2802) (Cy.300)
[42] ***Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Diwygio) 2011*** (OS 2011/2946) (Cy.319)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 4 yn grymuso Gweinidogion Cymru i osod ardoll ar gigyddwyr, allforwyr a phersonau sy'n ymwneud â gweithgareddau cynradd neu eilaidd sy'n ymwneud â'r diwydiant cig coch yng Nghymru. | Gwnaethpwyd *Gorchymyn Diwydiant Cig Coch (Dynodi Cigyddwyr ac Allforwyr) (Cymru) 2012*[43] gan Weinidogion Cymru ar 1 Chwefror 2012 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r gorchymyn yn gweithredu darpariaethau a gynhwysir yn Adran 4 o'r Mesur ac yn dynodi bod cigyddwyr ac allforwyr yn atebol am dalu'r ardoll. |
| Mae Adran 5 yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddiwygio, hepgor neu ychwanegu darpariaethau yn Atodlen 2 sy'n ymdrin â gweithredu'r ardoll ac uchafsymiau'r ardoll<br><br>Mae Adran 6 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth am ardollau a osodir mewn perthynas â phersonau sy'n ymgymryd â gweithgaredd cynradd neu eilaidd dynodedig.<br><br>Mae Adran 7 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddirprwyo eu holl gyfrifoldebau, rhai o'u cyfrifoldebau neu ddim ohonynt i drydydd partïon. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn bosibl i Weinidogion Cymru wneud trefniadau gyda chyrff fel Hybu Cig Cymru er mwyn i'r corff hwnnw ysgwyddo rhai o'r cyfrifoldebau neu'r holl gyfrifoldebau a chyflawni rhai o'r swyddogaethau neu'r holl swyddogaethau. | |

[43] *Gorchymyn Diwydiant Cig Coch (Dynodi Cigyddwyr ac Allforwyr) (Cymru) 2012* (OS 2012/247) (Cy.40)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|

## 2.10. *Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Tachwedd 2010*

| | |
|---|---|
| Mae *Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)* yn creu fframwaith statudol newydd er mwyn rhoi gofynion ar y GIG ac awdurdodau lleol yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd mewn perthynas â gofalwyr. | Cychwynnwyd darpariaethau'r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 23 Tachwedd 2011 ac 1 Ionawr 2012.[44] |
| Mae Adran 2 yn galluogi i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i "awdurdod perthnasol" (h.y. Byrddau Iechyd Lleol, ymddiriedolaethau GIG ac awdurodau lleol) neu ddau neu fwy o "awdurdodau perthnasol", baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n amlinellu sut y bydd yr awdurdod yn gweithio neu sut y bydd yr awdurdodau'n cydweithio i ddarparu gwybodaeth a chyngor priodol i ofalwyr, a hefyd sut y byddant yn cydweithio i sicrhau yr ymgynghorir â gofalwyr cyn penderyfnu pa wasanaethau a ddaperir i ofalwr neu'r person y gofelir amdano. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011*[45] gan Weinidogion Cymru ar 6 Rhagfyr 2011 a daethant i rym ar 1 Ionawr 2012. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru a'r awdurdodau lleol yn eu hardaloedd gydweithio i baratoi a chyhoeddi strategaeth sy'n amlinellu sut y byddant yn cydweithio i gynorthwyo a chynnwys gofalwyr yn y trefniadau a wneir ar gyfer y rhai y maent yn gofalu amdanynt. |

---

[44] Gweler ***Gorchymyn Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011*** (OS 2011/2842) (Cy.306)
[45] ***Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2011*** (OS 2011/2939) (Cy.315)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 3 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu beth yw ystyr "gwybodaeth briodol a chyngor priodol" at ddibenion Adran 2. | |
| Mae Adran 4 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu'r camau y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol eu cymryd neu'r camau y gallant eu cymryd i gyflawni eu dyletswydd i ymgynghori â gofalwyr o dan y Mesur. | |
| Mae Adran 5 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau pellach ynghylch sut y dylai'r awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol baratoi a chyhoeddi eu strategaethau. | Diwygiodd *Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) (Diwygio) 2012*[46] y rheoliadau gwreiddiol a wnaethpwyd yn 2011 er mwyn cywiro gwall golygu. Gwnaethpwyd y rhain gan Weinidogion Cymru ar 3 Chwefror 2012 a daethant i rym ar 29 Chwefror 2012. |
| Mae Adran 6 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi'n fanylach sut a phryd y mae'n rhaid cydymffurfio â darpariaethau Adran 6 (sy'n ymwneud â chyflwyno strategaeth ddrafft i Weinidogion Cymru). | |

[46] ***Rheoliadau Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) (Diwygio) 2012*** (OOS 2012/282) (Cy.46)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|

*2.11. Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 15 Rhagfyr 2010*

| | |
|---|---|
| Mesur galluogi yw *Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu)(Cymru) 2010* sy'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n galluogi i gymunedau gymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol ynglŷn â'r ffordd y maent yn gwaredu caeau chwarae.<br><br>Mae Adran 1 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu cyfranogiad y gymuned mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol ynghylch gwaredu tir sy'n cynnwys cae chwarae neu sy'n ffurfio rhan o gae chwarae. | Daeth y Mesur hwn i rym ar 15 Rhagfyr 2010. Hyd yma, ni wnaethpwyd rheoliadau gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau a roddwyd iddynt yn sgil y Mesur. |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| *2.12. Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 15 Rhagfyr 2010* | |
| Mae Adran 1 yn diwygio Atodlen 6 i *Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008* (c. 27) ("Deddf 2008"). Mae'r Atodlen honno'n grymuso Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch codi tâl gan werthwyr am gyflenwi bagiau siopa untro.<br><br>Ni wnaeth Deddf 2008 rymuso Gweinidogion Cymru i osod dyletswyddau ar werthwyr nwyddau, nac unrhyw un arall, mewn perthynas â phen taith yr enillion yn sgil taliadau a godir o dan y rheoliadau. Mae Adran 1 y Mesur hwn yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud hynny drwy fewnosod paragraffau 4A a 4B yn Atodlen 6 i Ddeddf 2008. | Daeth y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Mesur i rym ar 15 Chwefror 2011. Daeth gweddill y darpariaethau, a gynhwysir yn Adran 3 o'r Mesur, i rym ar 4 Mawrth 2011.[47]<br><br>Gwnaethpwyd *Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopau Untro (Cymru) 2010*[48] ym mis Tachwedd 2010 a daethant i rym ar 1 Hydref 2011.[49] Ni chawsant eu gwneud o dan y Mesur ei hun ond yn hytrach o dan *Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*, a ddiwygiwyd gan y Mesur. |
| Mae Adran 3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn adennill (drwy weithrediadau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio neu gompostio), o leiaf y maint targed o'i wastraff bwrdeistrefol ym mhob blwyddyn ariannol darged. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau | Gwnaethpwyd *Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011*[50] gan Weinidogion Cymru ar 25 Chwefror 2011 a daeth i rym ar 30 Mawrth 2011. |

[47] Gweler ***Gorchymyn Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2011*** (OS 2011/476) (Cy.71)
[48] ***Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010*** (OS 2010/2880) (Cy.238)
[49] **Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, *Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Untro (Cymru) 2010*, 1 Tachwedd 2010 [fel ar 21 Awst 2012]**

[50] ***Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 (OS 2011/551)***

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| lleol gyrraedd y swm targed ym mhob blwyddyn ariannol ddilynol tan y flwyddyn ariannol darged nesaf, a bryd hynny bydd maint targed arall yn berthnasol. Yn y tabl yn is-adran (3) nodir y blynyddoedd targed a'r symiau targed ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hynny. Mae is-adran (4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r tabl hwn drwy orchymyn. Mae unrhyw orchymyn o'r fath yn amodol ar weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.<br><br>Mae <u>Adran 4</u> yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu targedau gwastraff eraill, yn ychwanegol at y rhai a bennir o dan adran 3, yn ymwneud ag atal, lleihau, casglu, rheoli, trin neu waredu gwastraff gan awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu dangosyddion i fesur perfformiad awdurdod lleol mewn perthynas â'r targedau hyn ac i osod cosb ariannol ar awdurdodau lleol os na fyddant yn cyrraedd y targedau gwastraff hyn.<br><br>Mae <u>Adran 5</u> yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch asesu, monitro ac archwilio cydymffurfedd mewn perthynas â thargedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio o dan adran 3 neu dargedau gwastraff eraill o dan adran 4. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011*[51] ar 29 Mawrth 2011 a daethant i rym y diwrnod canlynol. |

[51] ***Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011*** **(OS 2011/1014)**

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| ***2.13. Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 15 Rhagfyr 2010*** | |
| Mae *Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010* yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd wedi eu hanelu at ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl yn gynharach i unigolion a chanddynt broblemau iechyd meddwl er mwyn lleihau’r perygl y bydd eu hiechyd meddwl yn dirywio ymhellach. Yn benodol, mae’r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol i weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol; mae’n gwneud darpariaeth statudol ar gyfer cynllunio gofal a thriniaeth i’r rhai sy’n cael gofal iechyd meddwl eilaidd; mae’n galluogi unigolion sydd wedi’u rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd i atgyfeirio eu hunain yn ôl i wasanaethau eilaidd heb orfod cael eu hatgyfeirio gan eu hymarferydd cyffredinol; ac mae’n darparu ar gyfer cynllun eirioli annibynnol statudol ehangach a ddarperir gan *Ddeddf Iechyd Meddwl 1983* ar hyn o bryd. | Cychwynnwyd darpariaethau’r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 15 Chwefror 2011 a 6 Mehefin 2012.[52]<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau arfer da** (Saesneg yn unig) hefyd i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol mewn perthynas â’r Mesur a’r is-ddeddfwriaeth a wneir mewn perthynas â’r Mesur. Cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Mawrth 2012. |

[52] Gweler ***Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Drosiannol) 2011*** (OS 2011/3046) (Cy.321) a ***Gorchymyn Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (Cychwyn Rhif 2) 2012*** (OS1397) (Cy.169)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 4 yn galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu ar y cynllun ar y cyd i ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol mewn ardal awdurdod lleol os na all y partneriaid iechyd meddwl gytuno ar gynllun o'r fath. | |
| Mae Adran 7 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau y categorïau o bersonau y gall ymarferydd cyffredinol eu hatgyfeirio lle nad yw'r unigolyn dan sylw wedi'i gofrestru â'r ymarferydd hwnnw. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwystra i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012*[53] gan Weinidogion Cymru ar 15 Mai 2012 a daethant i rym ar 1 Hydref 2012. Mae tair rhan i'r rheoliadau sy'n gysylltiedig ag Adran 7 o'r Mesur. Amlinella'r rheoliadau amgylchiadau penodol lle y gall darparwr gofal sylfaenol atgyfeirio person i gael asesiad iechyd meddwl sylfaenol. Mae'r rheoliadau hefyd yn gwneud darpariaeth am ofynion cymhwystra y mae'n rhaid i berson eu bodloni cyn y caniateir i berson gynnal asesiad iechyd meddwl sylfaenol. |
| Mae Adran 15 yn grymuso Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau ddull o nodi'r darparydd gwasanaeth perthnasol mewn amgylchiadau lle mae'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r awdurdod lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011*[54] gan Weinidogion Cymru ar 6 Rhagfyr 2011 a daethant i rym ar 6 Mehefin 2012. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau am gydgysylltu gofal a chynllunio gofal a thriniaeth i gleifion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Mae'r rheoliadau hefyd yn cynnwys |

[53] *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwystra i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012* (OS 2012/1305) (Cy.166)
[54] *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011* (OS 2011/2942) (Cy.318)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| | darpariaeth sy'n ymwneud â dynodi darparwyr gwasanaethau iechyd meddwl perthnasol, a darpariaethau trosiannol i gleifion sydd eisoes yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar y dyddiad y daeth y rheoliadau i rym. |
| Mae Adran 18 yn grymuso Gweinidogion Cymru i bennu ffurf a chynnwys cynllun gofal a thriniaeth. Yn ogystal mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch pwy y dylid ymgynghori â hwy wrth ddatblygu'r cynllun a phwy a ddylai gael copi ysgrifenedig o'r cynllun.<br><br>Os nad oes modd i bartneriaid iechyd meddwl lleol gytuno ar drefniadau addas ar gyfer cynnal asesiadau o ddefnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd, mae Adran 21 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r trefniadau ar gyfer ardal yr awdurdod lleol. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011.* |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Noda'r Mesur nad yw asesiadau o ddefnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn benagored ac mai dim ond am gyfnod penodol o amser ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd y gall defnyddwyr blaenorol gwasanaethau arfer eu hawl i gael asesiad arall. Mae Adran 23 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu hyd y cyfnod rhyddhau hwn. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011*[55] gan Weinidogion Cymru ar 18 Hydref 2011 a daethant i rym ar 6 Mehefin 2012. Mae'r rheoliadau hyn yn amlinellu'r darpariaethau sy'n ymwneud ag asesiadau iechyd meddwl i ddefnyddwyr blaenorol gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. |
| Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl ysgrifennu adroddiad am unrhyw asesiadau a wneir. Mae Adran 26 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r cyfnod o amser ar gyfer llunio adroddiadau. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Iechyd meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011.* |
| Mae'r hawl i oedolyn gael asesiad o dan Ran 3 (asesu defnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl) o'r Mesur yn hawl i gael asesiad gan bartneriaid iechyd meddwl lleol ardal yr awdurdod lleol y mae ef neu hi fel arfer yn byw ynddi. Mae Adran 29 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'r trefniadau ar gyfer penderfynu beth yw "man preswylio arferol" mewn amgylchiadau lle nad yw'n glir lle mae'r person dan sylw yn preswylio fel arfer. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Iechyd meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol o Wasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011.* |

[55] ***Rheoliadau Iechyd Meddwl (Asesu Defnyddwyr Blaenorol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2011*** (OS 2011/2500) (Cy.272)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 31 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau i ddarparu help drwy eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol. Yn ogystal, mae'r adran hon yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu'r safonau a'r cymwysterau y bydd angen i unigolyn eu bodloni er mwyn cael ei gymeradwyo fel eiriolwr iechyd meddwl annibynnol. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol) (Cymru) 2011*[56] gan Weinidogion Cymru ar 18 Hydref 2011 a daeth eu darpariaethau i rym ar 3 Ionawr 2012 a 2 Ebrill 2012. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trefniadau i benodi eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol. Yn benodol, maent yn cynnwys darpariaethau ynghylch pwy y gellir ei benodi i weithredu fel eiriolwr iechyd meddwl annibynnol, a'r bobl y gall eiriolwr ymweld â hwy a'u cyfweld at ddibenion rhoi cymorth i glaf cymwys o Gymru sy'n cael triniaeth o dan adran 4 *Deddf Iechyd meddwl 1983* (fel y'i diwygiwyd gan y Mesur). |
| Mae Adran 34 yn grymuso Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau bersonau eraill y gall eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol ymweld â hwy a'u cyfweld.<br><br>Mae Adran 39 yn cymhwyso'r ddyletswydd a osodir ar Weinidogion Cymru gan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i baratoi, cyhoeddi a diwygio Cod Ymarfer i roi arweiniad i'r rhai sy'n ymwneud â derbyn, trin, gwarchod a rhoi triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth i gleifion ag anhwylder meddwl. Mae'r Adran hefyd yn darparu y bydd y Cod Ymarfer y rhoi arweiniad i eiriolwyr iechyd meddwl annibynnol. | |

[56] ***Rheoliadau Iechyd Meddwl (Eiriolwyr Iechyd Meddwl Annibynnol) (Cymru) 2011*** (OS 2011/2501) (Cy,273)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 44 yn galluogi Gweinidogion Cymru i baratoi ac adolygu diwygio Codau Ymarfer a threfnu i Godau o'r fath gael eu cyhoeddi. Rhaid cynnal ymgynghoriad ar God cyn iddo gael ei wneud a rhaid ei osod gerbron y Cynulliad. Dim ond drwy gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru y gellir tynnu Cod sydd wedi cael ei wneud yn ôl, a rhaid i gyfarwyddyd o'r fath gael ei osod gerbron y Cynulliad. | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad** ar **God Ymarfer Drafft** ar gyfer cynllunio gofal a thriniaeth rhwng 18 Hydref 2011 ac 16 Ionawr 2012. |
| Mae Adran 45 yn darparu bod Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn gallu addasu gweithrediad Rhan 1 (gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol) er mwyn gwneud cynlluniau ar y cyd ar gyfer "rhanbarthau" sy'n ehangach nag ardal awdurdod lleol. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012*[57] gan Weinidogion Cymru ar 8 Mai 2012 a daeth y darpariaethau i rym ar wahanol adegau; ar 8 Mai 2012 a 6 Mehefin 2012. Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer darpariaeth ranbarthol at ddibenion Rhan 1 (gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol) a Rhan 3 (asesu defnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur. Yn benodol, mae'r rheoliadau'n creu ardaloedd neu ranbarthau awdurdod lleol ac yn eu haseinio i bartneriaid iechyd meddwl lleol. |
| Mae Adran 46 yn gwneud darpariaeth sy'n cyfateb i Adran 45 ond mewn perthynas â Rhan 3 (asesu defnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd). | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012.* |

[57] Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012 (OS 1244) (Cy.152)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 47 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r cymwysterau, y sgiliau, yr hyfforddiant neu'r profiad y dylai gweithwyr proffesiynol feddu arnynt er mwyn darparu asesiadau gofal sylfaenol neu gydgysylltu gofal mewn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011* a *Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwystra i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012.* |
| Mae Adran 48 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu gweithrediad y Mesur a chyhoeddi adroddiad ar adolygiad o'r fath o fewn pedair blynedd i gychwyn y darpariaethau a gynhwysir yn rhannau 1, 2, 3 a 4. Rhaid i gopi o'r adroddiad gael ei osod gerbron y Cynulliad. | |
| Mae Adran 49 yn pennu ystyr "gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd" mewn perthynas â'r Mesur. Mae'r adran hon hefyd yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r ystyr hwn neu ehangu arno drwy orchymyn. | Gwnaethpwyd *Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012*[58] gan Weinidogion Cymru ar 29 Mai 2012 a daeth i rym ar 6 Mehefin 2012. Mae'r gorchymyn yn gwneud darpariaeth sy'n nodi nad yw'r gofynion yn ymwneud â chydgysylltu a chynllunio gofal a thriniaeth sydd yn Rhan 2 (cydgysylltu gofal a chynllunio gofal ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur yn berthnasol i unigolyn sydd ond yn cael gwasanaethau neu driniaeth sydd ar gael ar ffurf gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn ardal yr awdurdod lleol y mae'r unigolyn hwnnw yn preswylio ynddi |

[58] *Gorchymyn Iechyd Meddwl (Gwasanaethau Iechyd Meddwl Eilaidd) (Cymru) 2012* (OS 2012/1428) (Cy.178)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| | fel arfer. Hefyd, ni fydd unigolyn sydd ond wedi derbyn gwasanaethau o’r fath yn gymwys i gael ei asesu o dan Ran 3 (asesu defnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o’r Mesur.<br><br>Yn ogystal, mae’r gorchymyn yn nodi y dylid ystyried gwasanaethau yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon sy’n cyfateb i’r gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir yng Nghymru, fel gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd at ddibenion penodol yn Rhan 3 o’r Mesur. |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
| --- | --- |
| *2.14. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 9 Chwefror 2011* | |
| Nod *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* yw moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol presennol sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Yn benodol, mae'r Mesur yn gwneud darpariaethau yn ymwneud â statws swyddogol y Gymraeg; wedi sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"), a fydd yn disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg; yn caniatáu ar gyfer datblygu safonau iaith a fydd, ymhen amser, yn disodli cynlluniau iaith Gymraeg; yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion gan siaradwyr Cymraeg sy'n credu yr amharwyd ar eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg ymysg ei gilydd; ac yn creu Tribiwnlys y Gymraeg. | Cychwynnwyd darpariaethau'r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 9 Chwefror 2011 a 1 Mehefin 2012.[59] |
| Mae Atodlen 1 Paragraff 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch penodi Comisiynydd y Gymraeg drwy reoliadau. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011*[60] gan y Cynulliad ar 28 Mehefin a daethant i rym y diwrnod canlynol. Mae'r rheoliadau'n darparu y bydd y panel dethol yn cynnwys: Aelod o'r Cynulliad a enwebwyd gan bwyllgor perthnasol y Cynulliad; aelod o staff Llywodraeth Cymru; asesydd penodiadau annibynnol; a pherson a chanddo |

[59] Gweler ***Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011*** (OS 2011/1586) (Cy.182); ***Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2)*** 2012 (OS 2012/46) (Cy.10); ***Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 3) 2012*** (OS 2012/223) (Cy.37); ***Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 4) 2012*** (OS 2012/969) (Cy.126); ***Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 5) 2012*** (OS 2012/1096) (Cy.135); ***Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 6) 2012*** (OS 2012/1423) (Cy.176)

[60] ***Rheoliadau Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2011 (OS 2011/1593)*** [fel ar 22 Awst 2012]

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
| --- | --- |
| | brofiad o hybu’r defnydd o’r Gymraeg a/neu iaith arall. Penodwyd Meri Huws yn Gomisiynydd ar 5 Hydref 2011.[61] |
| Mae Atodlen 4 Paragraff 5 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch penodi aelodau o’r Panel Cynghori drwy reoliadau. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012*[62] gan Weinidogion Cymru ar 11 Ionawr 2012 a daethant i rym ar 6 Chwefror 2012. |
| Mae Adran 26 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu un neu fwy o safonau darparu gwasanaeth, safonau llunio polisi, safonau gweithredu, safonau hybu neu safonau cadw cofnodion. | Daeth yr **ymgynghoriad ar Safonau drafft y Comisiynydd** i ben ar 11 Awst 2012. Bydd crynodeb o’r ymatebion yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref cyn i’r Comisiynydd gyflwyno’r safonau i’r Gweinidog.[63] Noda “Dros amser, fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi Safonau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny’n digwydd bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ran 2 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993”. |

[61] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Cofnod y Trafodion***, 5 Hydref 2011
[62] ***Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi)* 2012 (OS 2012/59))** [fel ar 22 Awst 2012]
[63] **Comisiynydd y Gymraeg, *Safonau mewn perthynas â’r Gymraeg: Beth yw’ch barn*, Mai 2012 [fel ar 22 Awst 2012]**

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 27 yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu safon cadw cofnodion ar gyfer cwynion yn ymwneud â’r Gymraeg ac eithrio cwynion sy’n ymwneud â chydymffurfiaeth person â safonau eraill mewn amgylchiadau penodol. Mae hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n pennu safonau gwahanol fel y rhai y cyfeirir atynt yn adran 26 mewn perthynas ag ymddygiad gwahanol.<br><br>Cyflwynir Atodlen 5 gan Adran 33 o’r Mesur. Gall Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ychwanegu’r personau neu’r categorïau o bersonau a restrir yng ngholofn (2) yn y tabl yn Atodlen 6 (Cyrff cyhoeddus etc: safonau) er mwyn gallu ei gwneud yn ofynnol i'r personau hynny gydymffurfio â’r safonau.<br><br>Gall Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio’r trothwy ariannol y cyfeirir ato yn rhes (5) y tabl (personau sy’n darparu gwasanaethau i’r cyhoedd ac sy’n derbyn arian cyhoeddus) drwy ddisodli’r swm perthnasol gydag unrhyw swm arall nad yw’n llai na £400,000.<br><br>Mae Adran 34 yn diffinio pryd y bydd person yn dod o fewn Atodlenni 5, 6, 7 neu 8. Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy’n nodi pa safonau a ddylai fod yn gymwys i ba bersonau neu gyrff, ac awdurdodi’r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i’r cyfryw bersonau neu gyrff. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Gosodir safonau ar berson neu gorff pan fydd y Comisiynydd yn rhoi hysbysiad cydymffurfio (adran 44) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person neu'r corff a restrir yn y tablau yn Atodlenni 6 neu 8 i gydymffurfio â'r safon neu'r safonau fel yr amlinellir yn yr hysbysiad: yna bydd dyletswydd ar y person neu'r corff i gydymffurfio. | |
| Mae Adran 39 yn nodi y bydd safon yn berthnasol i berson ("P") os bydd Gweinidogion Cymru yn darparu mewn rheoliadau bod y safon yn berthnasol i P, ac yn awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i P sy'n ei gwneud yn ofynnol i P gydymffurfio â'r safon. | |
| Mae Adran 138 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau sy'n nodi pa fuddiannau sy'n fuddiannau cofrestradwy ac i wneud darpariaeth arall at ddibenion y Bennod hon o Ran 8 o'r Mesur. | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Mesur y Gymraeg (Buddiannau Cofrestradwy) 2012*[64] gan Weinidogion Cymru ar 7 Mawrth 2012 a daethant i rym ar 1 Ebrill 2012. |

[64] ***Rheoliadau Mesur y Gymraeg (Buddiannau Cofrestradwy) 2012* (OS 2012/753)** [fel ar 22 Awst 2012]

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae'r Mesur yn diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac yn trosglwyddo ei swyddogaethau o dan adran 3 o *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993* i'r Comisiynydd. Gellid arfer swyddogaethau'r Bwrdd o dan adran 3 o'r Mesur gan Weinidogion Cymru yn hytrach na throsglwyddo'r swyddogaethau i'r Comisiynydd neu yn ogystal â hynny. Gellid cyflawni hyn drwy wneud gorchymyn o dan adran 154 o'r Mesur hwn. | Gwnaethpwyd *Gorchymyn y Gymraeg (Trosglwyddo Staff, Eiddo Hawliau a Rhwymedigaethau) 2012*[65] gan Weinidogion Cymru ar 7 Mawrth 2012 a daeth i rym ar 1 Ebrill. Gwnaethpwyd *Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo swyddogaethau , Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012*[66] i gyd fynd ag ef gan Weinidogion Cymru ar 29 Mawrth 2012 a daeth i rym ar 1 Ebrill 2012. |

[65] *Gorchymyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) 2012 (OS 2012/752)* [fel ar 22 Awst 2012]
[66] *Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Trosglwyddo swyddogaethau, Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2012 (OS 2012/990)* [fel ar 22 Awst 2012]

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| *2.15. Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 9 Chwefror 2011* | |
| Mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)* yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) wrth wneud penderfyniadau o "natur strategol", a ddiffinnir yn y Mesur fel penderfyniad ynglŷn ag unrhyw un o'r canlynol:<br>(a) darpariaeth y bwriedir ei chynnwys mewn deddfiad;<br>(b) fformiwleiddio polisi newydd;<br>(c) adolygiad o bolisi sydd eisoes mewn bod neu newid i bolisi sydd eisoes mewn bod<br>Mae'r Mesur hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cynllun y Plant a hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn. Yn ogystal mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar sut i gymhwyso'r Mesur i bersonau sydd wedi cyrraedd 18 oed ond nad ydynt yn 25 oed. | Daeth y Mesur i rym ar 9 Ebrill 2011. Hyd yma ni wnaethpwyd unrhyw reoliadau gan Weinidogion Cymru gan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd iddynt yn sgil y Mesur hwn. |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Cynllun y Plant y mae'n rhaid iddo bennu'r trefniadau y mae Gweinidogion Cymru wedi'u gwneud, neu'n bwriadu eu gwneud, er mwyn sicrhau eu bod hwy a'r Prif Weinidog yn cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus" a nodir yn Adran 1. Cynhwysir manylion ynglŷn â threfniadau paratoi a chyhoeddi'r Cynllun (yn cynnwys gofynion ymgynghori) yn Adran 3.<br><br>Mae Adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiadau ynghylch sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd "sylw dyledus" a nodir yn Adran 1.<br><br>Mae Adran 6 yn amlinellu'r amgylchiadau lle y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth neu offerynnau uchelfreiniol y maent yn eu hystyried yn briodol yng ngoleuni adroddiad y byddant wedi'i gyhoeddi o dan adran 4. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud y diwygiadau drwy orchymyn. Amlinellir y mathau o ddeddfwriaeth y gellir eu diwygio drwy ddefnyddio'r pŵer hwn yn Adran 9.<br><br>Mae Adran 7 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn a fydd yn cymhwyso'r Mesur cyfan, neu unrhyw | Cymeradwyodd y Cynulliad **Gynllun Hawliau Plant** Llywodraeth Cymru ar 27 Mawrth 2012. Noda'r cynllun y "bydd proses ymgynghori'n cychwyn yng Ngwanwyn/Haf 2012. Bydd yn cynnwys cynnal gweithdai â phobl ifanc a rhanddeiliaid perthnasol, cyn mynd ati i baratoi dogfen a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.".[67] |

[67] Llywodraeth Cymru, ***Cynllun Hawliau Plant***, 22 Mai 2012

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| ddarpariaeth sydd ynddo, mewn perthynas â phobl ifanc (h.y. pobl ifanc rhwng 18 a 24 oed).<br><br>Yn ogystal, mae’r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried i ba raddau y gallai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn fod yn berthnasol i bobl ifanc, a ph’un a ellid cymhwyso’r Mesur iddynt ar ffurf ddiwygiedig, ac adrodd ar hynny. Mae’r adran hon hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynnal ymgynghoriad ar unrhyw fater sy’n ymwneud â phobl ifanc y maent o’r farn ei fod yn briodol. Gall hyn gynnwys ymgynghoriad ar p’un a oes ffyrdd eraill mwy priodol o fynd i’r afael â hawliau pobl ifanc.<br><br>Mae Adran 8 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio adrannau 1 ac 8 o’r Atodlen i’r Mesur i adlewyrchu unrhyw ddiwygiad a wneir i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| *2.16. Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 7 Ebrill 2011* | |
| Mae *Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011* yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i osod system llethu tân sy'n gweithio'n effeithiol ac sy'n cydymffurfio â'r gofynion a ragnodir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru mewn cartrefi newydd. | Daeth rhai rhannau o'r Mesur i rym ar 8 Ebrill 2011, ond mae'n ofynnol i rannau eraill gael eu cychwyn gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.<br>Ni wnaethpwyd unrhyw reoliadau neu orchmynion dan y pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru yn sgil y Mesur hyd yma. |
| Mae Adran 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi gofynion y systemau llethu tân awtomatig y mae'n rhaid eu darparu. Byddai rheoliadau o'r fath yn nodi safonau technegol system o'r fath. | Cyhoeddodd John Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ar 30 Mai 2012, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati "i ddatblygu cynigion ymgynghori sy'n ceisio ei gwneud hi'n ofynnol i systemau atal tân gael eu gosod mewn pob eiddo preswyl newydd ac eiddo preswyl a addasir" ac y bydd rheoliadau cysylltiedig yn cael eu gwneud "ym mis Medi 2013".[68] |
| Mae Adran 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i ddangos y bydd y gwaith yn cydymffurfio â gofynion Adran 4 (sy'n ymwneud â dilysu a chyflwyno dogfennau). | |

[68] Datganiad Ysgrifenedig Cabinet Llywodraeth Cymru gan John Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ***Rheoleiddio systemau awtomatig ar gyfer atal tân mewn adeiladau domestig***, 30 Mai 2012

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 6 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio’r diffiniad o “preswylfa” mewn perthynas â’r Mesur.<br><br>Mae Adran 7 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud gorchmynion er mwyn gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth arbed, darpariaeth gysylltiedig â darpariaethau eraill y maent o’r farn eu bod yn angenrheidiol neu’n briodol. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|

## 2.17. *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mai 2011*

| | |
|---|---|
| Nod *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* yw cryfhau strwythurau a gweithrediad llywodraeth leol yng Nghymru i sicrhau gwell ymgysylltiad rhwng cynghorau lleol a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Yn benodol, mae'r Mesur yn galluogi i'r strwythurau llywodraethu lleol presennol yng Nghymru gael eu hadolygu; mae'n ehangu swyddogaeth cynghorwyr meinciau cefn o ran craffu ar wasanaethau lleol; mae'n datblygu ac yn cryfhau swyddogaeth cynghorau cymuned drwy eu galluogi i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau a chamau; mae'n diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau i gynghorwyr; mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill; mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru sefydlu awdurdodau lleol newydd drwy gyfuno dau neu dri awdurdod. | Cychwynnwyd darpariaethau'r Mesur sydd mewn grym ar hyn o bryd ar wahanol gyfnodau rhwng 10 Mai 2011 a 30 Ebrill 2012.[69] |
| Mae Adran 1 yn grymuso Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau fanylion y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy wrth gynnal arolygon o ymgeiswyr na fu iddynt lwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr mewn | Gwnaethpwyd *Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012*[70] gan Weinidogion Cymru ar 4 Mawrth 2012 a daethant i rym ar 31 Mawrth 2012. Mae'r rheoliadau hyn yn rhagnodi'r cwestiynau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu gofyn wrth |

---

[69] Gweler ***Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011*** (OS 2011/2011) (Cy.221); ***Gorchymyn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2012*** (OS 2011/1187) (Cy.145)
[70] ***Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012*** (OS 2012/685) (Cy.93)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
| --- | --- |
| etholiadau cyffredin i brif gynghorau a chynghorau cymuned yng Nghymru (etholiadau sy’n cydredeg ac a gynhelir bob pedair blynedd), a hefyd y personau hynny sydd wedi llwyddo i gael eu hethol yn gynghorwyr yn yr etholiadau hyn. Gall rheoliadau o’r fath ragnodi cwestiynau'r arolwg, ffurf yr arolwg a sut y mae’n ofynnol i awdurdodau lleol gasglu’r wybodaeth. | gynnal arolwg o etholiad lleol. Amlinellir y cwestiynau rhagnodedig a sut y gellir eu gofyn yn yr Atodlen i’r rheoliadau. |
| Mae Adran 2 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth o’r arolygon a dderbynnir gan bob awdurdod lleol o fewn 12 mis. | Defnyddiwyd y pwerau i wneud *Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012.* |
| Mae Adran 3 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau am yr arolygon. | |
| Mae Adran 4 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar fynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol o bell. | |
| Mae Adran 5 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar adroddiadau blynyddol y mae’n ofynnol i awdurdodau lleol eu cyhoeddi am weithgareddau aelodau eu cyngor. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 6 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar amseriad cyfarfodydd awdurdod lleol. | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ganllawiau drafft** y gellir eu cyhoeddi o dan y Mesur rhwng 3 Chwefror 2012 a 30 Mawrth 2012. Roedd y canllawiau drafft yn ymwneud â'r darpariaethau a bennir yn Adrannau 6, 7, 16, 56, 62, 63, 75, 76 ac 85 o'r Mesur. |
| Mae Adran 7 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar hyfforddi a datblygu aelodau awdurdod lleol. | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ganllawiau drafft** y gellir eu cyhoeddi o dan y Mesur rhwng 3 Chwefror 2012 a 30 Mawrth 2012. |
| Mae Adran 9 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu, drwy reoliadau, at swyddogaethau statudol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a bennir yn yr Adran. | |
| Mae Adran 10 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgorffori mewn rheolau sefydlog ddarpariaethau rhagnodedig sy'n ymwneud â rheoli staff a ddarperir i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac addasiadau eraill i reolau sefydlog yr awdurdod sy'n ymwneud â rheoli staff. | |
| Mae Adran 16 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar gyflawni swyddogaethau pwyllgor gwasanaethau democrataidd. | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ganllawiau drafft** y gellir eu cyhoeddi o dan y Mesur rhwng 3 Chwefror 2012 a 30 Mawrth 2012. |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 24 yn rhoi’r hawl i gynghorydd gael cyfnod o hyd at 26 wythnos o absenoldeb mamolaeth os bydd y cynghorydd wedi rhoi genedigaeth i blentyn ac yn bodloni’r amodau rhagnodedig. Mae’r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu’r manylion sy’n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth mewn rheoliadau, er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i unrhyw newidiadau a wneir yn y system gyflogaeth ehangach ac adlewyrchu’r newidiadau hynny. | |
| Mae Adran 25 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau tebyg i’r rhai y gellir eu gwneud o dan Adran 24, ond mewn perthynas ag “absenoldeb newydd-anedig”. | |
| Mae Adran 26 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau tebyg i’r rhai y gellir eu gwneud o dan Adran 24, ond mewn perthynas ag “absenoldeb mabwysiadydd | |
| Mae Adran 27 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau tebyg i’r rhai y gellir eu gwneud o dan Adran 24, ond mewn perthynas ag “absenoldeb mabwysiadu newydd”. | |
| Mae Adran 28 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau tebyg i’r rhai y gellir eu gwneud o dan Adran 24, ond mewn perthynas ag “absenoldeb rhiant”. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 29 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n pennu manylion a gofynion gweinyddol penodol ar gyfer awdurdodau lleol ac aelodau o awdurdodau lleol mewn perthynas â'r hawliau newydd a gyflwynir gan y darpariaethau yn y Rhan hon (yn ymwneud ag absenoldeb teuluol i aelodau o awdurdodau lleol)<br><br>Mae Adran 30 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar hawliau'n ymwneud ag absenoldeb teuluol.<br><br>Mae Adran 35 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau i awdurdodau lleol sy'n disodli eu "trefniadau amgen" â "trefniadau gweithrediaeth" mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r awdurdod lleol dan sylw. Mae Paragraff 13(2) o Atodlen 2 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddisodli eu "trefniadau amgen" â "trefniadau gweithrediaeth"".<br><br>Mae Adran 58 yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddarparu, drwy reoliadau, bod modd i ddau neu fwy o brif gynghorau sefydlu un neu fwy o gydbwyllgorau trosolwg a chraffu, a threfnu i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau lunio adroddiadau neu wneud argymhellion i unrhyw  un o'r prif gynghorau sy'n sefydlu'r pwyllgor, ac i weithrediaeth y cynghorau hynny. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 61 yn grymuso Gweinidogion Cymru i ddynodi drwy orchymyn y personau hynny neu’r categorïau o bersonau y gall pwyllgor trosolwg a chraffu awdurdod lleol graffu ar eu cyfrifoldebau neu’u swyddogaethau. | |
| Mae Adran 75 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn o benodi cadeiryddion pwyllgorau craffu ac i gyhoeddi canllawiau neu gyfarwyddiadau. | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ganllawiau drafft** y gellir eu cyhoeddi o dan y Mesur rhwng 3 Chwefror 2012 a 30 Mawrth 2012. |
| Mae Adran 76 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau neu gyfarwyddyd ynghylch cyfethol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ganllawiau drafft** y gellir eu cyhoeddi o dan y Mesur rhwng 3 Chwefror 2012 a 30 Mawrth 2012. |
| Mae Adran 77 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth i’w gwneud yn ofynnol i bwyllgorau trosolwg a chraffu a’u his-bwyllgorau gyhoeddi eu blaen-gynlluniau. | |
| Mae Adran 79 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau neu i roi cyfarwyddiadau ynghylch pwyllgorau trosolwg a chraffu. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 85 yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch swyddogaethau ac aelodau pwyllgorau archwilio, y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a phwyllgorau archwilio roi sylw iddynt. | Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ganllawiau drafft** y gellir eu cyhoeddi o dan y Mesur rhwng 3 Chwefror 2012 a 30 Mawrth 2012. |
| Mae Adran 94 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i bennu cwestiwn ar gyfer pleidlais gymunedol. | |
| Mae Adran 113 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i newid y trothwyon ar gyfer yr amrywiol weithdrefnau sefydlu a diddymu a gyflwynir gan y Mesur hwn. | |
| Mae Adran 116 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion, ac eithrio'r rhai a restrir ar wyneb y Mesur, sy'n ymwneud â hysbysiadau cyhoeddus pan fo seddau gwag aelodau cynghorau cymuned i'w llenwi drwy gyfethol. | |
| Mae Adran 117 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch rhoi hysbysiad cyhoeddus am gyfethol. | |
| Mae Adran 119 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion, ac eithrio'r rhai a restrir ar wyneb y Mesur, mewn cysylltiad â phenodi cynrychiolwyr ieuenctid | |
| Mae Adran 120 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch penodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 121 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddarparu bod cynrychiolydd ieuenctid cymunedol yn cael ei drin fel aelod o’r cyngor at y dibenion a bennir yn y rheoliadau.<br><br>Mae Adran 127 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud addasiadau i unrhyw ddeddfiad y maent o’r farn ei fod yn atal neu’n rhwystro cynghorau cymuned rhag arfer eu pŵer o dan adran 2(1) *Deddf Llywodraeth Leol 2000*.<br><br>Mae Adran 129 yn galluogi Gweinidogion Cymru i dalu grantiau i gynghorau cymuned.<br><br>Mae Adran 130 yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod cytundeb siarter enghreifftiol mewn gorchymyn.<br><br>Mae Adran 131 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i fabwysiadu siarter enghreifftiol.<br><br>Mae Adran 132 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch cytundebau siarter<br><br>Mae Adran 133 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r cyrff, y personau neu’r sefydliadau llywodraeth leol a nodir cyn gwneud gorchymyn neu gyhoeddi | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| cyfarwyddyd ynghylch cytundebau siarter enghreifftiol.<br><br>Mae Adran 134 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer cynllun achredu ansawdd ar gyfer cynghorau cymuned. Amlinellir y wybodaeth y gellir ei rhagnodi mewn rheoliadau o’r fath yn Adrannau 135 i 140.<br><br>Mae Adran 149 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ailystyried darparu adroddiad drafft.<br><br>Mae Adran 155 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod, ar ôl ymgynghori â’r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i beidio â gwneud taliadau, fel y pennir gan Weinidogion Cymru, i aelod o awdurdod am resymau a nodir yn y cyfarwyddyd.<br><br>Mae Adran 156 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod lleol i gydymffurfio, mewn amgylchiadau lle mae Gweinidogion Cymru yn fodlon bod awdurdod wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd a osodwyd arno gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol at ddibenion y Mesur.<br><br>Mae Adran 158 yn grymuso Gweinidogion Cymru i addasu, drwy orchymyn, y darpariaethau yn y Rhan hon o’r Mesur sy’n | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| ymwneud â phenodi aelodau o'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol neu â'i swyddogaethau ac i wneud unrhyw addasiadau canlyniadol i ddeddfiadau eraill o ganlyniad.<br><br>Mae Adran 161 yn grymuso Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau statudol cynhwysfawr ar bob agwedd ar bwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol fel yr amlinellir ym *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009*.<br><br>Mae Adran 162 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i gyfuno dau neu dri (ond dim mwy na hynny) o awdurdodau lleol i greu un ardal llywodraeth leol newydd.<br><br>Mae Adran 163 yn galluogi Gweinidogion Cymru, wrth wneud gorchymyn cyfuno, i wneud darpariaeth yn y gorchymyn hwnnw i ethol cyngor yr awdurdod lleol newydd.<br><br>Mae Adran 165 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwn cyfarwyddo awdurdod cysgodol ardal llywodraeth leol newydd i gynnal refferendwm ar p'un a ddylai'r awdurdod lleol newydd weithredu'r trefniadau gweithrediaeth maer a chabinet.<br><br>Mae Adran 166 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth atodol, cysylltiedig, canlyniadol a darpariaeth | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| arbed mewn perthynas â gorchymyn cyfuno.<br><br>Mae Adran 167 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gynnal adolygiad o’r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal awdurdod lleol newydd.<br><br>Mae Adran 170 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i gywiro gwall mewn gorchymyn cyfuno. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|

## *2.18. Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mai 2011*

| | |
|---|---|
| Nod *Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011* yw sicrhau safonau uchel ar gyfer cludiant penodedig i ddysgwyr drwy alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod nifer o ddyletswyddau ar gyrff perthnasol i osod gwregysau diogelwch priodol; i ddefnyddio cerbydau un llawr yn unig; i ddefnyddio bysiau a weithgynhyrchwyd ar ôl dyddiad penodol; i osod teledu cylch cyfyng a bodloni'r amodau gweithredu a bennir gan Weinidogion Cymru; i ddefnyddio cerbydau sy'n bodloni'r fanyleb "bysiau melyn" a'r safonau ar gyfer bysiau o'r fath; i ddarparu'r safonau perthnasol ar gyfer hyfforddi gyrwyr a bennir gan Weinidogion Cymru; i gynnal asesiadau risg diogelwch a bennir gan Weinidogion Cymru; i ddarparu staff i oruchwylio bysiau ysgol (rhan 5); ac i fodloni manylebau penodol mewn perthynas â thacsis a cherbydau hurio preifat.<br><br>Mae <u>Adran 2</u> yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol mai dim ond disgrifiadau penodol o gerbydau a ddefnyddir yn gludiant i ddysgwyr a ddarperir neu a sicrheir gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir. | Mae Adran 1 o'r Mesur sy'n ymwneud â'r gofynion i awdurdodau lleol sicrhau bod gwregysau diogelwch yn cael eu gosod ar fysiau sy'n cludo dysgwyr yn dod i rym ar 1 Hydref 2014. Daeth gweddill y Mesur i rym ar 10 Gorffennaf 2011. Hyd yma, nid oes rheoliadau wedi'u gwneud o dan y Mesur hwn. |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 3 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i drefniadau gael eu gwneud ar gyfer recordio delweddau gweledol neu sain ar gludiant i ddysgwyr ac mae’n pennu’r darpariaethau ynghylch defnyddio, storio a chadw delweddau gweledol neu sain. Gall y rheoliadau bennu’r mathau o drefniadau y dylid eu gwneud. | |
| Mae Adran 4 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i gorff perthnasol gynnal asesiadau risg diogelwch o’r cludiant i ddysgwyr a ddarperir ganddo. | |
| Mae Adran 5 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir sy’n darparu cludiant i ddysgwyr i sicrhau bod gyrwyr y cerbydau hynny wedi cael eu hyfforddi’n briodol ar ddiogelwch ar gludiant i ddysgwyr a gweithio gyda phlant. | |
| Mae Adran 6 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n ymwneud â darparu goruchwylwyr ar gludiant i ddysgwyr gan gorff perthnasol a darparu hyfforddiant perthnasol i oruchwylwyr o’r fath. | |
| Mae Adran 8 yn grymuso Gweinidogion Cymru i benodi person neu gorff i fod yn awdurdod gorfodi. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy’n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| Mae Adran 11 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy’n grymuso awdurdod gorfodi i fynnu bod awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol neu berson sy’n darparu cludiant i ddysgwyr yn darparu gwybodaeth, dogfennau, cofnodion ac eitemau eraill sy’n ymwneud â chludiant i ddysgwyr ac y mae’r awdurdod gorfodi o’r farn eu bod yn angenrheidiol neu’n hwylus at ddibenion ei swyddogaethau<br><br>Mae Adran 12 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau lle y gall swyddog corff corfforaethol neu bartner mewn partneriaeth fod yn bersonol atebol am dramgwyddau a gyflawnir o dan adrannau 14A, 14B neu 14C gan y corff corfforaethol neu’r bartneriaeth, yn ogystal â’r corff corfforaethol neu’r bartneriaeth ei hun. | |

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| ***2.19. Mesur Tai (Cymru) 2011 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mai 2011*** | |
| Mae *Mesur Tai (Cymru) 2011* yn cynnwys dwy elfen gyffredinol: mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i atal dros dro yr hawl i brynu, yr hawl i brynu a gadwyd a'r hawl i gaffael sydd gan denantiaid darparwr tai cymdeithasol yng Nghymru, ar gais Awdurdod Tai Lleol mewn ardaloedd lle y ceir pwysau difrifol oherwydd prinder tai; ac mae'n rhoi pwerau rheoleiddio ac ymyrryd ehangach i Weinidogion Cymru ynghylch tai a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. | Cychwynnwyd rhai darpariaethau yn y Mesur sy'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (a gynhwysir yn Rhan 2) ar wahanol adegau drwy orchymyn ar 18 Hydref 2011 a 2 Rhagfyr 2011.[71] Cychwynnwyd gweddill darpariaethau'r Mesur sy'n ymwneud â'r hawl i brynu gan Weinidogion Cymru ar 3 Medi 2012.[72] |
| Mae Adran 34 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, i wneud darpariaeth ganlyniadol neu ddarpariaeth sy'n rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth sydd yn y Mesur neu i wneud darpariaeth i gymhwyso neu ymestyn unrhyw ddarpariaeth ynghylch neu sy'n berthynol i'r hawl i brynu. | Gwnaethpwyd *Gorchymyn Mesur Tai (Cymru) 2011 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth)* gan Weinidogion Cymru ar 9 Awst 2012 a daeth i rym ar 3 Medi 2012. Bydd y gorchymyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau mewn is-ddeddfwriaeth bresennol sy'n gysylltiedig â'r hawl i brynu a hawliau cysylltiedig.<br><br>Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad ar ganllawiau hawl i brynu** rhwng 28 Gorffennaf 2011 a 31 Hydref 2011. Mae **crynodeb o'r ymatebion** (Saesneg yn unig) wedi'i gyhoeddi ar wefan y Llywodraeth. |

[71] Gweler ***Gorchymyn Mesur Tai (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 1) 2011*** (OS 2011/2475) (Cy.267)
[72] Gweler ***Gorchymyn Mesur Tai (Cymru) 2011 (Cychwyn Rhif 2) 2012*** (OS 2012/2091) (W.241)

| Y pwerau i wneud Rheoliadau sydd yn y Mesur | Y rheoliadau a wnaethpwyd neu sy'n destun ymgynghoriad |
|---|---|
| *2.20. Mesur Addysg (Cymru) 2011 - Rhoddwyd Cymeradwyaeth Frenhinol ar 9 Chwefror 2011* | |
| Mae *Mesur Addysg (Cymru) 2011* yn pennu cyfres o bwerau a dyletswyddau sy'n sicrhau bod cydlafurio'n nodwedd gyffredin o'r system addysg er mwyn gwella trefniadau llywodraethu ysgolion a symleiddio'r broses o gynllunio lleoedd mewn ysgolion yng Nghymru. | Daeth Adrannau 26 i 32 ac Adran 34 o'r Mesur i rym ar 9 Ebrill 2011. Nid yw gweddill darpariaethau'r Mesur wedi'u cychwyn gan Weinidogion Cymru eto. |
| Mae Adran 6 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rhagor o ddarpariaeth drwy reoliadau ynglŷn â'r "pwerau cydlafurio" a amlinellir yn Adran 5 o'r Mesur. | |
| Mae Adran 30 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth, drwy orchymyn, y maent o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus i roi effaith lawn i adrannau 25 i 28 sy'n ymwneud ag ysgolion sefydledig. Gall gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pŵer hwn, ymysg pethau eraill, ddiwygio neu ddirymu is-ddeddfwriaeth. | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

**Report: CLA(4)-20-12 : 8 October 2012**

**The Committee reports to the Assembly as follows:**

**Instruments that raise no reporting issues under Standing Order 21.2 or 21.3**

**Negative Resolution Instruments**

None

**Affirmative Resolution Instruments**

None

**Instruments that raise reporting issues under Standing Order 21.2, 21.3 or 21.7**

**Negative Resolution Instruments**

**CLA178 - The Bluetongue (Wales) (Amendment) Regulations 2012**
**Procedure:** Negative.
**Date made:** 15 September 2012.
**Date laid:** 19 September 2012.
**Coming in to force date:** 10 October 2012

**CLA179 - Radioactive Contaminated Land Statutory Guidance for Wales 2012**
**Procedure:** Negative.
**Date made:** Not stated.
**Date laid:** 24 September 2012.
**Coming in to force date:** Not stated.

**Affirmative Resolution Instruments**

None

**Other Business**

**Scrutiny of Legislative Competence: Implications of the Byelaws Bill**

The Committee discussed the implications of the problems with the legislative competence for the Bylaws Bill. The Committee decided to return to this issue after the Supreme Court delivers it's judgement on the matter. The Committee resolved, in the meantime, that when scrutinising a Bill, that the Minister responsible for that Bill, is asked whether he or she is aware of any issues concerning the legislative competence of the Assembly in relation to any provisions of the Bill.

**Public Audit (Wales) Bill**

The Committee considered the Legal Adviser's report on delegated powers contained in the Public Audit (Wales) Bill which was laid before the Assembly 9 July 2012. The Committee decided that as the Bill contained no significant delegated powers that it was not necessary to invite the Minister to give oral evidence to the Committee. The Committee did, however, resolve to write to the Minister for Finance and Leader of the House Jane Hutt AM to invite her to confirm that she has no concerns relating to the legislative competence of the Assembly.

**Committee Correspondence**

**The Natural Resources Body for Wales (Functions) Order 2012- letter to the Chair of Environment and Sustainability Committee**

The Members noted the letter from the Minister for Environment and Sustainable Development John Griffiths AM to the Chair of the Environment and Sustainability Committee Lord Dafydd Elis-Thomas AM concerning the provision of an early draft of the Natural Resources Body for Wales (Functions) Order. The Members noted that Environment and Sustainability Committee would be looking at the draft Order in depth from a policy perspective and decided that the Constitutional and Legislative Affairs Committee would scrutinise it at a later date when the final draft is submitted.

**Subsidiarity monitoring report (May 2012 – August 2012)**

The Members noted the second Subsidiarity monitoring report, covering the proposals received between May and August 2012.

**Subordinate legislation made by Welsh Ministers under Assembly Measures**

The Members noted the paper on Subordinate legislation made by Welsh Ministers under Assembly Measures that was published by Research Service in October 2012.

**David Melding AM**
Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee

**8 October 2012**

**Annex 1**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

**(CLA(4)-20-12)**

**CLA178**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee Report**

**Title: The Bluetongue (Wales) (Amendment) Regulations 2012**

**Procedure: Negative**

These regulations amend the Bluetongue (Wales) Regulations 2008 by transposing Directive 2012/5/EU (the Directive) as regards vaccination against bluetongue and will allow animal keepers to vaccinate their animals against bluetongue using inactivated vaccines.

**Technical Scrutiny**

No points are identified for reporting under Standing Order 21.2 in respect of this instrument.

**Merits Scrutiny**

The following point is identified for reporting under Standing Order 21.3 in respect of this instrument at the present time.

Article 1 of the Directive amends Directive 2000/75/EC (the 2000 Directive). Article 1(2) of the Directive, which amends Article 5 of the 2000 Directive, includes the following –

"2. Whenever live attenuated vaccines are used, Member States shall ensure that the competent authority demarcates:

(a) a protection zone, consisting of at least the vaccination area;

(b) a surveillance zone, consisting of a part of the Union territory with a depth of at least 50 kilometres extending beyond the limits of the protection zone."

Article 1(4) of the Directive replaces Article 8(2)(b) of the 2000 Directive with the following –

"(b) The surveillance zone shall consist of a part of the Union territory with a depth of at least 50 kilometres extending beyond the limits of the protection zone and in which no vaccination against bluetongue

with live attenuated vaccines has been carried out during the previous 12 months.";

The Regulations do amend the Bluetongue (Wales) Regulations 2008 in relation to surveillance zones, but no reference is made to the required depth of at least 50 kilometres.

The National Assembly is therefore invited to pay special attention to these Regulations because they inappropriately implement European Union legislation.  [Standing Order 21.3(iv)]

**David Melding AM**
Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee

**8 October 2012**

**The Government has responded as follows:**

**The Bluetongue (Wales) (Amendment) Regulations 2012**

**Response to Merits Scrutiny Reporting Point**

The minimum distances specified in Article 1(4) of Directive 2012/5/EU ("the Directive") can, and would, be imposed by the Welsh Ministers as the "competent authority" within the meaning of Article 1 of the Directive in the event of an outbreak and it is not necessary make reference to those minimum distances in the Bluetongue (Wales) (Amendment) Regulations 2012 ("the Regulations).

The Bluetongue (Wales) Regulations 2008, as amended by the Regulations, confer executive powers on the Welsh Ministers to declare the necessary zones, while the Directive is clear and unambiguous on what the requisite distances are.  The Welsh Ministers are, of course, subject to those demarcation requirements. Therefore, the ability of the Welsh Ministers to deal with any outbreak, lawfully and in accordance with the requirements of the Directive, is not in question. The Regulations give proper effect to the Directive and it is not necessary for the Regulations to make reference to the minimum distances specified in the Directive.

**Annex 2**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

**(CLA(4)-20-12)**

**CLA179**

**Constitutional and Legislative Affairs Committee Report**

**Title: Radioactive Contaminated Land Statutory Guidance**

1. "The Guidance is intended to explain how local authorities should implement the radioactive contaminated land regime, including how they should go about deciding whether land is "contaminated land" in the legal sense of the term"

2. On 24th September 2012, the Statutory Guidance was laid before the National Assembly together with a brief Explanatory Memorandum. Statutory guidance may (or may not) constitute subordinate legislation. The usual test is whether or not the guidance is legislative in character. The persons (including public bodies) to whom the guidance is directed are required to have regard to such guidance. In practice this means that they must have a very good reason for not following that guidance. The reason must be capable of justifying the course of action adopted in any judicial review procedure.

3. The procedure applicable to the guidance is legislative in character, and therefore it has been agreed that the Committee will consider the guidance.

**Enabling Power**

4. The Welsh Ministers have various powers to issue guidance under Part IIA of the Environmental Protection Act 1990. The Explanatory Memorandum states that the guidance is legally binding on local authorities and the Environment Agency.

**Procedure**

5. The procedure for approval is set out in Section 78YA as follows:-

    *Section 78YA*

    *(1) Any power of the Minister for the Environment and Sustainable Development to issue guidance under this Part shall only be exercisable after consultation with the appropriate Agency and such other bodies or persons as he may consider it appropriate to consult in relation to the guidance in question.*

*(2) A draft of any guidance proposed to be issued under section 78A(2) or (5), 78B(2) or 78F(6) or (7) above shall be laid before the National Assembly for Wales and the guidance shall not be issued until after the period of 40 days beginning with the day on which the draft was so laid or, if the draft is laid on different days, the later of the two days.*

*(3) If, within the period mentioned in subsection (2) above, the National Assembly for Wales resolves that the guidance, the draft of which was laid before it, should not be issued, the Minister for the Environment and Sustainable Development shall not issue that guidance.*

*(4) In reckoning any period of 40 days for the purposes of subsection (2) or (3) above, no account shall be taken of any time during which the National Assembly for Wales is dissolved or prorogued or during which the National Assembly for Wales is adjourned for more than four days.*

*(5) The Minister for the Environment and Sustainable Development shall arrange for any guidance issued by him under this Part to be published in such a manner as he considers appropriate.*

6. The guidance is subject to a variation on the negative procedure. As in negative procedure cases, the guidance can be made and come into force unless the Assembly resolves to the contrary within a specified period. However, in the case of statutory instruments made under a negative procedure, the instruments are normally made before they are laid. In this case, the guidance is laid in draft, and may not be made until the end of a specified period. The procedure therefore provides a greater measure of scrutiny than a standard negative procedure.

**Scrutiny**

7. The Committee has agreed to scrutinise guidance which is subject to an Assembly procedure. If the guidance is regarded as subordinate legislation not made by statutory instrument, the Constitutional and Legislative Affairs Committee may report on it under Standing Order 21.7 (i). Even if it is not so regarded, the Committee may still report on it as being a legislative matter of a general nature under Standing Order 21.7 (v).

**Technical Scrutiny**

8. If this had been a statutory instrument, the matter would have been drawn to the attention of the Assembly under Standing Order 21.2 (ix) – *that it is not made or to be made in Welsh*

9. The Minister for the Environment and Sustainable Development has discretion to publish the guidance in such a manner he considers appropriate. (Section 78YA (5)).

10. There appears to be a typographical error in paragraph 3 of the Explanatory Memorandum which states that *"This Statutory Guidance has been scored in accordance with the Welsh Government's Welsh Language Scheme and* ***does*** *require translation due to the length, the technical nature and limited target audience of the document."*

**Merits Scrutiny**

**11.** No merits points are identified that would have been reported under Standing Order 21.3 if this had been a statutory instrument.

12. This matter is drawn to the attention of the Assembly under Standing Orders 21.7 because it raises legislative and procedural issues likely to be of interest to the Assembly.

**David Melding AM**
Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee

**8 October 2012**

**The Government has responded as follows:**

**Draft Radioactive Contaminated Land Statutory Guidance 2012**

The draft Guidance was scored against the criteria to be applied under the Welsh Government's Welsh Language Scheme and did not require translation due to the length, technical nature, and limited target audience of the document. I am grateful to the Committee for pointing out the typographical error in the Explanatory Memorandum and will ensure that it is corrected in any copies that are produced for further distribution.